Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2016 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Sophie Hughes<br>01286 679729<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfed Wyn Edwards | Arweinydd |
| Dyfrig L. Siencyn | Dirprwy Arweinydd |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Adnoddau |
| John Wynn Jones | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Mair Rowlands | Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4YDD HYDREF 2016 | | | 3 - 9 |
| 6 | CAU ADEILADAU FRONDEG, PWLLHELI A FFORDD Y TRAETH, FELINHELI | Cyng/Cllr. Dafydd Meurig | Dafydd Gibbard | 10 - 16 |
| 7 | CAIS I RYDDHAU ADNODDAU O'R GRONFA TRAWSNEWID | Cyng/Cllr. Mair Rowlands | Ian Jones | 17 - 18 |
| 8 | ADRODDIAD BLYNYDDOL ADNODDAU DYNOL | Cyng/Cllr. Peredur Jenkins | Geraint Owen | 19 - 39 |
| 9 | ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET YR AMGYLCHEDD | Cyng/Cllr. John Wynn Jones | Dilwyn Williams | 40 - 48 |
| 10 | ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET CYNLLUNIO A RHEOLEIDDIO | Cyng/Cllr. Dafydd Meurig | Dilwyn Williams | 49 - 54 |
| 11 | ADRODDIAD PERFFORMIAD: DIRPRWY ARWEINYDD | Cyng/Cllr. Dyfrig Siencyn | Dilwyn Williams | 55 - 61 |
| 12 | ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET YR ECONOMI A CHYMUNED | Cyng/Cllr. Mandy Williams-Davies | Iwan Trefor Jones | 62 - 70 |

# Y CABINET 4/10/16

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn (Cadeirydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Mandy Williams-Davies.

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Sioned E. Williams (Pennaeth Economi a Chymuned - ar gyfer eitemau 6 a 7 ar y rhaglen), Catrin Thomas (Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol - ar gyfer eitemau 6 a 7 ar y rhaglen), Dylan Griffiths (Rheolwr Strategaeth a Datblygu - ar gyfer eitemau 6 a 7 ar y rhaglen), Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant – ar gyfer eitemau 8 a 9 ar y rhaglen), Rhion Glyn (Uwch Swyddog Gweithredol – ar gyfer eitem 9 ar y rhaglen), Sian Lloyd Roberts (Uwch Swyddog Gweithredol – ar gyfer eitemau 10 a 11 ar y rhaglen) a Dewi W Jones (Uwch Swyddog Gweithredol – ar gyfer eitem 12 ar y rhaglen).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau’r Cabinet a Swyddogion i’r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Dyfed Wyn Edwards.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 13 MEDI 2016**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13eg o Fedi 2016, fel rhai cywir.

**6. GOBLYGIADAU CANLYNIAD REFFERENDWM EWROP**

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Mandy Williams-Davies.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn yr adroddiad ac ystyried yn fuan y gweithdrefnau mewnol y dylid eu rhoi

mewn lle i fonitro effeithiau penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd ar y sir yn barhaus yn y cyfnod i ddod gan gyfleu negeseuon i Lywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru.

**TRAFODAETH**

Nododd y Cyng. Mandy Williams-Davies bod penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd efo effaith bellgyrhaeddol ar Wynedd gan gynnwys effaith ar yr economi, pensiynau a'r amgylchedd. Tynnwyd sylw at y rhestr o brosiectau gwerthfawr a arianwyd yn rhannol gan gyllid o Ewrop ers 2007. Pwysleisiwyd bod rhaid lleisio barn a chyfleu unigrwydd y sir.

Nododd yr aelodau'r prif bwyntiau canlynol:-

- Bod y rhestr o brosiectau yn cadarnhau'r buddsoddiad sylweddol a wireddwyd yng Ngwynedd o ganlyniad i gyllid o Ewrop;
- Pryder o ran ansicrwydd i'r dyfodol;
- Y dylid ymgyrchu i gael beth sydd orau i bobl Gwynedd gan sicrhau llais i Wynedd yng Nghaerdydd a San Steffan;
- Yr angen i fod yn glir a chroyw er mwyn amddiffyn buddiannau Gwynedd;
- Pryder o ran yr effaith ar addysg uwch yn y sir o ystyried bod tua hanner incwm ymchwil Prifysgol Bangor yn dod o Ewrop;
- Bod cyfleoedd yn ogystal mewn cyfnod o newid ac fe ddylid manteisio arnynt;
- Y byddai Gwynedd yn llawer tlotach heb yr arian a dderbyniwyd o Ewrop;
- Bod rôl i Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru;
- Pryder y bydd ffocws ar brosiectau economaidd yn hytrach na chefnogi pobl drwy gynlluniau megis OPUS a TRAC 11-24*;
- Yr angen i sicrhau bod y cyllid a neilltuwyd i gyllidebau o dan raglenni'r Undeb Ewropeaidd tan 2020 yn dod i Wynedd;
- Bod cryn bryder yn y sector amaeth ac fe ddylid cynnwys y sector yma wrth lobio.

Nododd Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol) ei fod yn angenrheidiol bod y Deyrnas Unedig yn cael mynediad i'r farchnad sengl er mwyn manteisio ar arian gan Fanc Buddsoddi Ewrop i wireddu cynlluniau isadeiledd. Ychwanegwyd bod angen i Wynedd fod yn rhan o'r trafodaethau wrth negodi cytundebau masnachol gyda gwledydd a rhanbarthau eraill. Pwysleisiwyd bod gan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru rôl i chwarae i adnabod cyfleoedd a bygythiadau.

Nodwyd gan fod y sefyllfa yn aneglur ar hyn o bryd, y dylai'r Tîm Arweinyddiaeth ystyried cael mecanwaith i ymateb i'r sefyllfa fel y mae'n datblygu, er mwyn sicrhau lobio yn y lleoedd priodol ar yr amser priodol.

**7. HAMDDEN HARLECH AC ARDUDWY**

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cynghorwyr Mandy Williams-Davies a Mair Rowlands.

**PENDERFYNWYD**

Yn amodol bod y 6 Cyngor Cymuned yn cyfrannu yn unol â'r model gyllido a amlinellir yn rhan 4.3 o'r adroddiad, ymrwymo cyfraniadau ariannol i "Harlech & Ardudwy Leisure" tuag at fenter y pwll nofio drwy –

- ragfarnu llwyddiant cais am gyllideb barhaol ychwanegol o £6,000 o 2017/18 ymlaen fel rhan o becyn ar y cyd gyda'r cynghorau cymuned lleol.
- ofyn i'r Pennaeth Cyllid neilltuo £20,000 yn yr adolygiad ail chwarter o gyllideb 2016/17 er mwyn gwneud taliad pontio un tro yn ystod 2016/17 ar gyfer y cyfnod hyd at 31ain o Fawrth 2017.

**TRAFODAETH**

Nododd y Cyng. Mandy Williams-Davies y dylid rhoi clod i'r cynghorau cymuned am gymryd cyfrifoldeb i sicrhau'r adnodd. Roedd hwn yn enghraifft o'r Cyngor yn cyd-weithio gyda'r gymuned leol i sicrhau cadw adnodd pwysig i'r gymuned gan anfon neges bod y Cyngor yn barod i gyd-weithio efo partneriaid pan edrychir ar y ffordd y darperir gwasanaethau yn y dyfodol.

Nododd aelodau eu gwerthfawrogiad o barodrwydd y cynghorau cymuned i gymryd ychydig o'r baich ariannol i warchod yr adnodd.

## 8. ADRODDIADAU BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn yr adroddiadau.

**TRAFODAETH**

Nododd y Cyng. Ioan Thomas mai un amcan y drefn newydd o ran cwynion corfforaethol, a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2015, oedd dod â buddiant penodol i'r dinesydd trwy ganolbwyntio ar y datrysiad yn hytrach na'r broses. Pwysleisiwyd mai gwrando ar lais y dinesydd gan ddysgu o'r profiadau a lledaenu ymarfer da oedd wrth wraidd y drefn newydd. Nodwyd nad oedd yn bosib cymharu gyda blynyddoedd blaenorol gan ei fod yn drefn newydd.

Cyfeiriodd y Cyng. W. Gareth Roberts at yr adroddiad yng nghyswllt trefn gwynion gwasanaethau cymdeithasol gan dynnu sylw bod yr ymchwiliadau ffurfiol yn lleihau o ganlyniad i'r ymdrech i geisio cael datrysiad lleol/anffurfiol. Nodwyd y dysgir o'r tueddiadau er mwyn atal yr un peth rhag digwydd eto.

Eglurwyd bod gan unigolyn yr hawl i apelio i'r Ombwdsmon os ydynt yn anfodlon gydag ymateb ffurfiol y Cyngor. Tynnwyd sylw at lythyr diwygiedig a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon a oedd yn dangos bod y Cyngor yn cymharu'n ffafriol yn genedlaethol gydag awdurdodau lleol, Parciau Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Iechyd o ran yr amser a gymerir i ddatrys cwynion. Nodwyd y gwelwyd gostyngiad o 44% yn y nifer o gwynion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at yr ystadegau yn y llythyr diwygiedig a

dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon lle dangosir nad oedd y Cyngor wedi ymateb i geisiadau am wybodaeth gan yr Ombwdsmon cyn cyfnod o dair wythnos. Eglurodd tra bod angen sicrhau gwybodaeth i'r Ombwdsmon fedru ystyried cwyn yn briodol, ni ellir cyfiawnhau rhoi blaenoriaeth i hynny bob tro gan ei fod yn golygu tynnu swyddogion allan o'u gwaith dyddiol i gynhyrchu'r wybodaeth i ymateb i un cais, gan y byddai'n cael effaith ar y gwasanaethau a ddarperir i drigolion. O ystyried diffyg adnoddau disgwylir llithriad yn yr amser a gymerir i ymateb.

Ategwyd y sylw uchod gan yr aelodau gan nodi bod angen cydbwysedd o ran ymateb yn amserol a darparu gwasanaethau.

Nodwyd diolch i'r Swyddog Gwella Gwasanaeth am ei brwdfrydedd o ran delio â chwynion er mwyn gwella.

**9. ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. W. Gareth Roberts.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Tynnodd y Cyng. W. Gareth Roberts sylw penodol at Brosiect **G7 'Capasiti a Chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac iechyd'**, gan nodi bod y prosiect wedi ei ychwanegu i'r Cynllun Strategol eleni oherwydd y pryder mawr o ran y problemau presennol sydd yn bodoli o ran darpariaethau gofal ac iechyd o fewn y maes pobl hŷn yn benodol. Nodwyd bod diffyg staff yn y maes i ddarparu'r gwasanaeth gan gynnwys nyrsys a gofalwyr cartref. Nodwyd yr amlygir y problemau gan y perfformiad o dan mesur **SCA/001 - Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed**. Eglurwyd bod cyfradd uchel o achosion o oedi yn ardal De Meirionnydd lle mae diffyg darpariaeth a bod y Cyngor yn mynd i'r afael a'r broblem yma.

Nododd bod cyd-weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd yn holl bwysig i ddarparu gwasanaethau mewn dull gwahanol a bod angen edrych ar y broblem o recriwtio gan adnabod y rhwystrau yn genedlaethol.

Cyfeiriodd y Cyng. Dyfrig Siencyn at y bwriad i ddatblygu Cartref Preswyl Llys Cadfan er mwyn gallu cynnig mwy o gefnogaeth nyrsio a fyddai'n caniatáu unigolion i aros yn y cartref preswyl yn hirach ac osgoi mynediad i gartref nyrsio. Croesawodd y bwriad gan nodi bod y model gofal newydd yn ceisio cyfarch y bwlch yn y ddarpariaeth.

**10. ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS BLANT, POBL IFANC A HAMDDEN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mair Rowlands.

**PENDERFYNWYD**

- Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.
- Anfon llythyr at Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant a Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn tynnu sylw effaith ymarferol derbyn gwybodaeth hwyr ynglŷn â grantiau ar waith ataliol, gan ofyn am fwy o sicrwydd o ran ariannu gwasanaethau ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus y Sir.

**TRAFODAETH**

Tynnodd y Cyng. Mair Rowlands sylw penodol at Brosiect **P8 'Ymyrraeth Gynnar ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd'**, gan nodi bod arian grant teuluoedd yn gyntaf yn dod i ben diwedd mis Mawrth 2017 a bod ansicrwydd o ran ariannu yn y dyfodol. Roedd hyn yn creu ansefydlogrwydd i staff gan greu risg o golli staff a oedd wedi datblygu arbenigedd gyda hynny yn gallu llifo drwodd wedyn i lesteirio'r gwasanaeth ataliol a ddarperir. Adroddwyd bod trefniadau pontio mewn lle i alluogi rhoi ychydig o sicrwydd i staff. Nodwyd y bwriedir cyflwyno diweddariad i'r Tîm Arweinyddiaeth yn ystod mis Tachwedd.

Ychwanegodd Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol) bod Llywodraeth Cymru yn adolygu grantiau ar hyn o bryd ac fe ystyrir uno'r grantiau cefnogi pobl a gyda'n gilydd. Nodwyd bod y cyngor yn awyddus i sicrhau parhad y cynlluniau ataliol yma er ceisio atal plant a phobl ifanc rhag mynd yn ddibynnol ar wasanaethau statudol.

Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid ystyried anfon llythyr at Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant a Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn tynnu sylw effaith ymarferol derbyn gwybodaeth hwyr ynglŷn â grantiau ar waith ataliol, gan ofyn am fwy o sicrwydd o ran ariannu gwasanaethau ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus y Sir.

Cyfeiriwyd at y mesur perfformiad **IEU05 'Nifer o achrediadau mae pobl ifanc yn eu derbyn trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid'**, canmolwyd y gwaith a chyfeiriwyd at y cynnydd o 27% yn y nifer o achrediadau a dderbyniwyd yn ystod 2015-16. Nododd y Cyng. Mair Rowlands y byddai'n cyfleu'r neges i'r swyddogion.

**11. ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS ADDYSG**

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Gareth Thomas.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Tynnodd y Cyng. Gareth Thomas sylw penodol at ganlyniadau amodol Haf 2016 a oedd yn dangos bod perfformiad Gwynedd yn gyffredinol dda ar draws y cyfnodau allweddol. Amlygwyd bod lle i wella perfformiad Cyfnod Sylfaen gan fod canlyniadau wedi aros yn statig dros y blynyddoedd diwethaf a bod ffigyrau Lefel A 2016 yn dangos bod 96.2% wedi ennill lefel A A*-E sydd yn -1.1% yn is na'r ffigwr cenedlaethol a'r ffigwr isaf yng Ngogledd Cymru.

Cyfeiriwyd at Gyfnod Allweddol 4, nodwyd y gwelwyd cynnydd sylweddol o +5.2% yn y ganran oedd wedi llwyddo i groesi trothwy Lefel 2+ (cyfwerth a phump TGAU graddau A i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg). Roedd y perfformiad yn awgrymu y gall Gwynedd fod yn safle 2 o blith holl awdurdodau Cymru. Tynnwyd sylw bod cynnydd o 13.5% ym mesurydd perfformiad TL+2 ers cychwyn cyfnod y cyngor presennol yn 2012 a oedd yn gynnydd sylweddol ym mherfformiad disgyblion mewn TGAU.

Cymerwyd y cyfle i ddiolch i staff yr holl ysgolion a'r Adran Addysg am eu gwaith o ran rhoi sylw i safonau. Ni fyddai'r cynnydd wedi bod yn bosib heb eu hymroddiad.

Nodwyd bod cynnydd rhagorol yng nghanran presenoldeb yr ysgolion uwchradd. Roedd Gwynedd yr awdurdod cyntaf i gyrraedd presenoldeb uwch na 95% ar gyfer ysgolion uwchradd ac arbennig, gyda'r ysgolion uwchradd yn adrodd ar gymedr o 95.16% gan osod Gwynedd yn gyntaf o ran awdurdodau Cymru.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod pam fod Ysgol Morfa Nefyn o dan gategori monitro awdurdod er bod yr ysgol wedi derbyn barn rhagorol ar yr holl feini prawf o dan arolygiad ESTYN, eglurodd y Cyng. Gareth Thomas bod presenoldeb disgyblion yn cael ystyriaeth gan ESTYN ac os oedd presenoldeb is bod ysgol yn mynd syth i mewn i gategori monitro awdurdod.

Canmolwyd gwaith yr ysgolion gan nodi yr anogir y gwelliant.

**12. ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS ADNODDAU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Nododd y Cyng. Peredur Jenkins bod angen cywiro dau beth yn yr adroddiad, sef:

- newid paragraff 1.1 i ddarllen "....yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel *Aelod Cabinet Adnoddau*."
- nid oedd cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol yng nghyfarfod y Tîm Rheoli, mi fyddai cynrychiolaeth yn y cyfarfod nesaf.

Cyfeiriwyd at brosiect **C1 'Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith'**, nodwyd y lleihawyd y nifer o adolygiadau a gynhelir yn ystod 2016-17 o 12 i 7 er mwyn sicrhau y

gwneir gwaith manwl. Tynnwyd sylw at brosiect **C2 'Rhaglen Datblygu Arweinwyr'**, eglurwyd er bod y gwaith ar lefel uwch swyddogion yn mynd yn ei flaen yn unol â'r disgwyl bod pryder ynghylch ei addasrwydd i'r Aelodau Cabinet. Nodwyd y penderfynwyd bod y prosiect yn canolbwyntio ar yr uwch swyddogion dros y misoedd nesaf gan ail ymweld ag anghenion yr Aelodau Cabinet yn ddiweddarach yn 2017.

Cadarnhawyd y gwireddir yr arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd erbyn diwedd Mawrth 2017 ac fe ddarganfyddir cynlluniau effeithlonrwydd pellach i'w gwireddu yn unol â'r un amserlen.

Mewn ymateb i sylw gan aelod bod perfformiad yr Adran Addysg o ran talu anfonebau o fewn 30 diwrnod yn effeithio ar fesur perfformiad **Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor)**, nodwyd y cynhaliwyd trafodaethau efo'r Aelod Cabinet Addysg a bod rhaglen waith wedi ei sefydlu i ddelio gyda'r mater. Ychwanegodd y Cyng. Gareth Thomas y byddai sefydlu'r swyddfeydd ardal addysg yn lleihau'r baich ar y Penaethiaid a'i fod yn ffyddiog y byddai'r perfformiad yn gwella.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.20 y.h.

**CADEIRYDD**

**ADRODDIAD I'R CABINET**
Tachwedd 1af, 2016

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Dafydd Meurig

**Pwnc:** Cau adeiladau Frondeg, Pwllheli a Ffordd y Traeth, Felinheli

**Swyddog cyswllt:** Dafydd Gibbard – Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol

---

**Y penderfyniad a geisir**

Bwrw 'mlaen i gau adeilad Frondeg Pwllheli yn gynnar yn y flwyddyn ariannol 2017/18 a symud ymlaen i'w werthu ar y farchnad agored cyn gynted â phosib er mwyn caniatáu gwireddu'r arbediad ariannol yn llawn erbyn 2018/19, gyda'r Adran yn pontio'r diffyg yn y cyfamser.

Caniatáu defnyddio hyd at £30,000 o'r dderbynneb cyfalaf o werthu'r adeilad i gyllido costau ail leoli unwaith ac am byth.

Lleihau'r gofod dan brydles gan y Cyngor yn Ffordd y Traeth, Felinheli er mwyn lleihau'r gwariant blynyddol.

Gwireddu gweddill swm y toriad drwy osod gofod pellach yn Swyddfa Penrallt, Caernarfon.

---

**Barn yr aelod lleol**

**<u>Ffordd y Traeth Felinheli</u>**

Cyng. Gareth Griffith - Dim gwrthwynebiad i'r adroddiad ynglŷn â Felinheli.

**<u>Frondeg Pwllheli</u>**

Cyng. Michael Sol Owen - Rwy'n cytuno gyda'r argymhellion

Cyng. Hefin Underwood - Dim Sylwadau

---

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Yng nghyfarfod y Cyngor ar Fawrth y 3ydd eleni, cytunwyd ar nifer o doriadau oedd yn angenrheidiol er mwyn i'r Cyngor allu gosod cyllideb hafal. Roedd cau adeiladau Frondeg, Pwllheli, a Ffordd y Traeth, y Felinheli, ymysg y rhain, a fyddai'n arwain at arbediad blynyddol o £60,000.

1.2 Wrth wneud y penderfyniad, cytunwyd y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn cau'r adeiladau, er mwyn sicrhau fod modd ail leoli'r defnyddwyr a'r gwasanaethau presennol i leoliadau addas.

2.0 **Frondeg, Pwllheli**

2.1 Mae adeilad Frondeg wedi bod ym meddiant y Cyngor ers degawdau ac yn parhau yn gartref i amrywiol wasanaethau gan y Cyngor ei hun ac i nifer o ddefnyddwyr eraill. Ers penderfyniad y Cyngor mae swyddogion y Gwasanaeth Eiddo wedi ceisio adnabod a chytuno ar leoliadau amgen ar gyfer pob un o'r rhain.

2.2 Gellir crynhoi'r trafodaethau hyn fel a ganlyn:

| Defnydd | Opsiynau ail leoli posib | Amserlen ail leoli |
|---|---|---|
| Cylch Meithrin | Mae'r Cylch Meithrin yn cyfarfod bob dydd yn Frondeg ar hyn o bryd. Mae Frondeg gryn bellter o'r Ysgol Gynradd ac felly mae nifer o rieni yn gorfod ceisio cludo eu plant i'r ddau leoliad ar yr un amser yn y boreau. Roedd y Cylch felly yn awyddus iawn i ni eu cynorthwyo i ail leoli i'r Ysgol Gynradd ac o'r cychwyn roedd y trafodaethau gyda'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr yn bositif iawn. Cafodd gofod addas o fewn adeilad yr ysgol ei adnabod gan fod uned sydd yno ar hyn o bryd yn ail lleoli i'r Ysgol Hafod Lon newydd. Roedd y gost o addasu'r gofod yma ar gyfer plant meithrin yn £10,000 ac mae'r gwaith eisoes wedi ei gwblhau. Mae'r Cylch felly yn edrych ymlaen yn eiddgar i ail leoli erbyn Ionawr 2017. | Ionawr 2017 |
| Staff yr Adran Plant a'r Adran Oedolion | Mae bron i 50 o swyddogion y ddwy adran hyn wedi eu cartrefu yn Frondeg ar hyn o bryd, ynghyd ag stafelloedd cyfweld diogel ac ystafell deulu. Yn dilyn asesiad manwl; o'r dwysedd defnydd gofod yn Swyddfa Ffordd y Cob ym Mhwllheli, casglwyd fod y gofod y pen gryn dipyn yn uwch na'r hyn a ganiateir gan y Cyngor mewn swyddfeydd eraill. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf gwelwyd nifer o stafelloedd yn cael eu tanddefnyddio.<br><br>Rydym bellach wedi cynnal trafodaeth gyda phob Pennaeth Adran ac wedi ail ddylunio'r defnydd o ofod yn Swyddfa Ffordd y Cob. Gyda chydweithrediad staff, | Haf 2017 |

| | | |
|---|---|---|
| | byddwn yn gallu ail leoli'r swyddogion sydd yn Frondeg ar hyn o bryd i swyddfa Ffordd y Cob. Golyga hyn well gwasanaeth i'r cyhoedd hefyd drwy allu eu cyfeirio at un adeilad ar gyfer pob gwasanaeth gan y Cyngor ym Mhwllheli. | |
| Clwb Ieuenctid | Bydd Aelodau yn ymwybodol fod y Gwasanaeth Ieuenctid, yn dilyn penderfyniadau Her Gwynedd, yn ystyried modelau darparu ar gyfer y gwasanaeth a'r rhwydwaith o glybiau ieuenctid ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i Fawrth 2018. Gellir diwallu anghenion presennol y Gwasanaethau yn y cyfnod trosiannol rhwng gwaredu Frondeg erbyn Mawrth 2017 a sefydlu'r model darparu newydd ym Mawrth 2018 drwy adleoli i adeilad/au addas eraill yn y dref gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Eiddo. Ni ellir rhagdybio ar hyn o bryd beth fydd anghenion y Gwasanaeth yn y cyfnod y tu hwnt i Fawrth 2018. | Mawrth 2017 |
| Pwyllgorau'r Cyngor | Mae stafell bwyllgor pwrpasol yn adeilad Frondeg. Fe'i defnyddir ar gyfer cynnal y Pwyllgor Cynllunio, Pwyllgor Ardal Dwyfor, Pwyllgorau Trwyddedu a Phwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli yn bennaf.<br><br>Mae modd cartrefu rhai o'r rhain yn yr ystafell gyfarfod yn Ffordd y Cob ond nid yw'r stafell yn ddigon mawr ar gyfer ail leoli rhai o'r pwyllgorau mwy, yn enwedig pan fo'r cyhoedd yn dymuno mynychu. Rydym felly wedi cynnal trafodaeth gyda'r Adran Economi a Chymuned ac wedi dod i gasgliad fod cynnal y pwyllgorau mwyaf yn Neuadd Dwyfor yn un opsiwn. Mae gofod addas yno a fyddai'n caniatáu digon o le i'r cyhoedd hefyd. Mae opsiynau eraill dan ystyriaeth hefyd a byddwn angen derbyn barn Aelodau Dwyfor cyn dod i benderfyniad terfynol. | Mawrth 2017 |
| Clwb Ni | Mae Clwb Ni yn wasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu. Mae wedi ei gartrefu yn Frondeg ers blynyddoedd lawer ac yn wasanaeth gwerthfawr iawn i drigolion yr ardal. Rydym wedi cynnal trafodaeth gyda'r Clwb a gyda rheolwyr Canolfan y Gwystl yn y Ffor. Mae gofod yno sydd wedi ei addasu'n bwrpasol ac yn cael ei danddefnyddio gyda'r nos. Mae'r trafodaethau hyn yn parhau ac nid oes penderfyniad terfynol hyd yn hyn, ond byddai dod i gytundeb yn sicrhau nid yn unig gofod addas ar gyfer y Clwb ond hefyd gwell defnydd o adeilad arall sydd | Mawrth 2017 |

| | | |
|---|---|---|
| | eisoes ym mherchnogaeth y Cyngor. | |
| Defnyddwyr / grwpiau cymunedol | Defnyddir Frondeg gan nifer o grwpiau cymunedol ar gyfer cynnal amrywiol weithgareddau. Rydym wedi agor trafodaeth gyda nifer o berchnogion adeiladau eraill yn yr ardal sy'n cynnig gofod cyfarfod neu ofod sy'n addas ar gyfer cynnal digwyddiadau. Mae sawl un wedi datgan eu parodrwydd i gynnig cartref i amrywiol grwpiau. Rydym felly wedi gohebu gyda phob grŵp i'w hysbysu fod Frondeg yn cau ac ar yr un pryd wedi rhannu gwybodaeth am leoliadau eraill posib er mwyn ceisio eu cynorthwyo i ail leoli. Byddwn yn parhau i geisio cynnig cymorth i'r grwpiau hyn dros y misoedd nesaf. | Mawrth 2017 |

2.3 Mae cau unrhyw adeilad a gorfod ail leoli'r defnyddwyr am greu anhwylustod a chyfnod o ansicrwydd na ellir ei osgoi. Fodd bynnag, mae'r trafodaethau sydd wedi eu cynnal hyd yma wedi arwain at allu darganfod opsiynau ail leoli synhwyrol ar gyfer y rhan fwyaf o'r defnyddwyr presennol. Mae cyfleoedd wedi eu hadnabod i wella rhai gwasanaethau ac rydym yn ffyddiog y gallwn barhau i gynorthwyo eraill er mwyn dod i ddatrysiad derbyniol o dan yr amgylchiadau.

2.4 Rydym yn anelu felly i wacau'r adeilad erbyn haf 2017. Bydd hynny'n caniatáu gwireddu'r arbedion ar rhai penawdau o'r gyllideb yn syth, fel a ganlyn :

| | | |
|---|---|---|
| Glanhau (75% o gyllideb blwyddyn) | | £15,698 |
| Nwy (75% o gyllideb blwyddyn) | £4,418 | |
| Dwr (75% o gyllideb blwyddyn) | £3,300 | |
| Offer diffodd tan | £310 | |
| Cytundeb cynnal tir | £460 | |
| Trethi (3 mis o'r gyllideb) | £4,100 | |
| Llai colled incwm o osod ystafelloedd | -£1,860 | |
| **Cyfanswm arbediad ar gael yn syth** | **£26,426** | |

2.5 Bydd costau eraill yn parhau i'n hwynebu hyd nes y byddwn wedi gallu gwerthu'r adeilad. Credir y gellir gwerthu'r safle erbyn Mawrth 2018 gan ganiatáu gwireddu'r holl arbedion o Ebrill 2018. Ni ellir gwireddu'r arbediad cyfan cyn 2018/19 felly, ond bydd yr Adran yn pontio'r diffyg yma am y flwyddyn ariannol nesaf drwy wneud defnydd o arbedion eraill o swyddfeydd, sydd wedi eu cyflawni'n gynnar.

2.6 Gan y byddwn yn ail leoli rhai gwasanaethau i adeiladau eraill, bydd angen trosglwyddo peth o gyllideb refeniw presennol Frondeg i'r adeiladau hynny. Yn benodol bydd angen cyfrannu oddeutu £1,000 tuag at gostau ychwanegol yn Neuadd Dwyfor os fydd cytundeb i ail leoli Pwyllgorau yno, a bydd angen trosglwyddo £7,000 i gyllideb swyddfa Ffordd y Cob er mwyn ymdopi gyda chynnydd yng nghostau refeniw'r adeilad hwnnw.

2.7 Golyga hyn y bydd cyfanswm yr arbediad ar gyfer blwyddyn lawn yn £44,460.

2.8 Er mwyn sicrhau fod yr arbedion llawn ar gael cyn gynted â phosib, bwriedir cychwyn marchnata'r safle yn gynnar yn 2017, tra bod y defnyddwyr presennol wrthi'n cael eu hail leoli.

2.9 Er mwyn hwyluso'r ail leoli, bydd angen peth gwariant unwaith ac am byth. Mae'r gost o ail leoli'r Cylch Meithrin eisoes yn wybyddus, sef £10,000. Bydd peth costau hefyd i ail leoli staff swyddfa a mân eitemau eraill. Amcangyfrifir y bydd y costau hyn hyd at £20,000. Gofynnir felly am yr hawl i neilltuo'r £30,000 cyntaf o'r dderbynneb cyfalaf o werthu adeilad Frondeg i gyllido'r costau hyn. Nid yw'r dderbynneb gyfalaf wedi ei ymrwymo i ddefnydd arall yn y Cynllun Rheoli Asedau.

3.0 **Adeilad Ffordd y Traeth, y Felinheli**

3.1 Ynghlwm i'r toriad o gau adeilad Frondeg roedd bwriad hefyd i gau adeilad y Cyngor yn Ffordd y Traeth, Felinheli.

3.2 Defnyddir yr adeilad yma gan yr Adran Plant, ond mae hefyd yn gartref i hyd at 8 corff arall sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor i gynnig cefnogaeth a gwasanaethau i droseddwyr ifanc.

3.3 Mae'r 8 corff i gyd yn cyfrannu at gostau'r adeilad ac felly pe byddem yn dirwyn y brydles i ben, byddai'r arbediad yn cael ei rannu rhwng yr holl bartneriaid.

3.4 Nid yw'n synhwyrol i'r Cyngor adael yr adeilad ein hunain, heb y partneriaid eraill. Mae gwaith y bartneriaeth yn gwbl ddibynnol ar allu gweithio gyda'r holl gyrff er mwyn gallu darparu gwasanaeth cyflawn i'r cleientiaid.

3.5 Y bwriad yn wreiddiol oedd ail leoli staff y Cyngor i Swyddfa Penrallt yng Nghaernarfon. Fodd bynnag, byddai angen gofod sylweddol pe baem am ail leoli'r cyfan o'r bartneriaeth yno – gofod a fyddai'n creu incwm gwell i'r Cyngor o'i osod ar y farchnad yn hytrach na'r hyn a fyddem yn ei arbed wrth wagio Ffordd y Traeth.

3.6 Rydym eisoes wedi bod mewn trafodaeth gyda darpar denant sydd yn barod i symud i mewn i'r gofod dan sylw ym Mhenrallt erbyn Ebrill 2017. Drwy osod y gofod i'r darpar denant yn hytrach na'i ddefnyddio i gartrefu'r bartneriaeth yn Ffordd y Traeth, gallem wireddu'r toriad disgwyliedig ar amser, ar gyfer y flwyddyn ariannol 17/18.

3.7 Rydym hefyd yn edrych yn fanylach ar y gofod sydd yn Ffordd y Traeth ar hyn o bryd ac mewn cydweithrediad a'r Adran plant credwn y gallwn leihau ychydig ar y gofod sydd ei angen ac felly byddwn yn lleihau'r costau yn y lleoliad hwnnw hefyd.

4.0 **Crynodeb o'r darlun cyllidol**

4.1 Gellir crynhoi'r arbedion disgwyliedig a gyfeirir atynt yn rhan 2 a 3 o'r adroddiad hwn fel a ganlyn:

| | Arbediad yn 2017/18 | Arbediad yn 2018/19 | Cyfanswm arbedion |
|---|---|---|---|
| Cau adeilad Frondeg | £26,426 | £18,034 | £44,460 |
| Lleihau gofod ar brydles yn Ffordd y Traeth, Felinheli | £5,000 | £5,000 | £10,000 |
| Gosod gofod ym Mhenrallt | £16,000 | £0 | £16,000 |
| **Cyfanswm arbedion** | **£47,426** | **£23,034** | **£70,460** |

4.2 Bydd diffyg 2017/18 yn cael ei bontio gan yr Adran o gynlluniau swyddfeydd eraill sydd wedi eu gwireddu'n gynt na'r disgwyl.

4.3 Erbyn 2018/19 byddwn yn gor-gyflawni'r £60,000 disgwyliedig a bydd y swm ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i gwrdd â diffygion eraill yn y gyllideb swyddfeydd sydd wedi bod yn cael eu cyfarfod gydag arian pontio yn ddiweddar.

5.0 **Argymhellion**

5.1 Bwrw 'mlaen i gau adeilad Frondeg Pwllheli yn gynnar yn y flwyddyn ariannol 2017/18 a symud ymlaen i'w werthu ar y farchnad agored cyn gynted â phosib er mwyn caniatáu gwireddu'r arbediad ariannol yn llawn erbyn 2018/19, gyda'r Adran yn pontio'r diffyg yn y cyfamser.

5.2 Caniatáu defnyddio hyd at £30,000 o'r dderbynneb cyfalaf o werthu'r adeilad i gyllido costau ail leoli unwaith ac am byth.

5.3 Lleihau'r gofod dan brydles gan y Cyngor yn Ffordd y Traeth, Felinheli er mwyn lleihau'r gwariant blynyddol.

5.4 Gwireddu gweddill swm y toriad drwy osod gofod pellach yn Swyddfa Penrallt, Caernarfon.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Yn amlwg, mae cynnwys yr adroddiad hwn yn ymwneud â gweithredu ar benderfyniad a wnaed gan y Cyngor llawn ym Mawrth 2016. O ddarllen yr adroddiad, mae'n ymddangos bod atebion amgen wedi eu hadnabod ar gyfer y mwyafrif o'r gofynion. Rwy'n cymeradwyo'r argymhellion.

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'r argymhellion yn cael eu cefnogi gan waith ymgysylltu a chynlluniau rhesymol i adleoli defnyddwyr presennol. Yn fy marn i mae hyn yn gyfrwng i argymhelliad priodol.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rhaid i ni fel Cyngor symud ymlaen i resymoli adnoddau lle gellir gwneud hynny; mae'r adroddiad yma yn cynnig tystiolaeth o'r gwaith trylwyr sydd wedi cael ei wneud gan Eiddo Corfforaethol i ddarganfod lleoliadau amgen i'r gwasanaethau a nodir.

Gallaf gadarnhau cywirdeb yr wybodaeth ariannol sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad, ac rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir.

---

**Atodiadau**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **01/11/16** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Mair Rowlands** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 804** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cais am adnoddau o'r Gronfa Trawsnewid** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

I fuddsoddi £50,000 unwaith ac am byth o'r Gronfa Trawsnewid i ddatblygu achos fusnes amlinellol ar gyfer asesu opsiynau busnes posib ar gyfer y gwasanaeth Hamdden ac, yn ddarostyngedig i'r achos fusnes, ymrwymo hyd at £100,000 pellach ar gyfer gweithredu.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Cyflwynir y cais am fuddsoddiad unwaith ac am byth hwn i ddatblygu achos fusnes fydd yn anelu i :

- Sicrhau darpariaeth hamdden fodern, addas i bwrpas, cynaliadwy a cynhwysol fydd yn ysgogi a chefnogi pobl Gwynedd i fyw bywydau iach
- Gwireddu arbedion parhaol o dros £500,000

### 3 CYFLWYNIAD

Mae'r Gwasanaeth Hamdden eisoes wedi cyflawni arbedion o bron i £0.82m yn erbyn targed o £1.05m sydd yn ein Strategaeth Arbedion ar gyfer 2015 – 2018 drwy gyfuniad o effeithlonrwydd ac incwm ychwanegol.

Mae ein Strategaeth Ariannol hefyd yn rhagweld y bydd angen i'r Cyngor adnabod rhagor o arbedion dros y 3 blynedd nesaf sydd am roi pwysau ariannol pellach ar ein gwasanaethau.

Mae'r gwaith arfaethedig yma'n ystyried yr opsiynau a modelau darparu a all gyflawni'r arbedion sylweddol angenrheidiol, tra'n cynnal hyfywdra a chynaliadwyedd y gwasanaeth.

Gofynnir am fuddsoddiad o hyd at £50,000 yn y lle cyntaf er mwyn datblygu achos fusnes fydd yn pennu'r model mwyaf hyfyw a chynaliadwy ar gyfer cyflawni ein gweledigaeth i'r dyfodol. Yn ddarostyngedig i'r achos fusnes hwnnw mae'n bosib y bydd angen buddsoddiad unwaith ac am byth pellach o

£100k i symud i weithredu model newydd. Bydd y buddsoddiad angenrheidiol yn fwy clir os neu phan fydd model penodol wedi ei bennu.

## 4 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Anelir i ddychwelyd i'r Cabinet gydag achos fusnes ym mis Gorffennaf 2017.

## 5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Sylwadau'r swyddogion statudol:

**Y PRIF WEITHREDWR:** Yn amlwg, mae'r gofynion arbed ar y Gwasanaeth Hamdden yn golygu ein bod, fel Cyngor, angen ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer siâp a natur y gwasanaeth i'r dyfodol. Mae edrych ar holl oblygiadau unrhyw opsiynau yn faes arbenigol iawn ac mae'n bwysig bod gennym fynediad at gyngor arbenigol ar yr agweddau gwahanol wrth i opsiynau gael eu hystyried.

Rwy'n ymwybodol bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn bwriadu edrych ar unrhyw opsiynau sydd yn cael eu hystyried yn y misoedd nesaf. Felly, bydd yn allweddol bod gwybodaeth a chyngor arbenigol ar bob agwedd ar gael yr adeg hynny ac ymhellach wrth i'r Cabinet wneud ei benderfyniadau arno maes o law.

**Y PRIF SWYDDOG CYLLID:** Fel yr eglura'r adroddiad, mae'r Gwasanaeth Hamdden mewn sefyllfa ble mae'n rhaid gweithredu'n ddi-oed a phendant er mwyn gwireddu'r arbedion disgwyliedig. Mae sawl opsiwn posib er mwyn gwireddu hyn, ond rhaid sicrhau fod unrhyw ddatrysiad a gynigir yn hyfyw, cynaliadwy a chyfreithlon. Mae casglu tystiolaeth o brofiadau eraill yn allweddol hefyd.

Rwyf felly'n cefnogi'r penderfyniad a geisir, a gallaf gadarnhau fod adnodd digonol yn y Gronfa Trawsnewid ar gyfer yr ariannu angenrheidiol.

**Y SWYDDOG MONITRO:** Mae'n hanfodol wrth ystyried cyfeiriad all olygu trawsffurfio busnes fod gwaith paratoi manwl yn digwydd yn fuan er adnabod opsiynau priodol a chynaliadwy. Mae'r gwaith cychwynnol yn angenrheidiol ac rwy'n cefnogi'r bwriad.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i Gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Tachwedd 1af 2016** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen** |
| **Rhif Ffon Cyswllt** | **01286 679 335** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol Adnoddau Dynol** |

1 **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Cymeradwyaeth o'r adroddiad blynyddol a mabwysiadu'r Cynllun Pob.

2 **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Ar gyfer adlewyrchu a chytuno ar y strategaeth corfforaethol yn y maes allweddol hwn i'r dyfodol

3 **CYFLWYNIAD**

Cyflwynir yr adroddiad hon fel yr ymgais gyntaf i gynhyrchu adroddiad blynyddol ym maes adnoddau dynol o fewn y Cyngor. Derbynnir adroddiad blynyddol ar sefyllfa gyllidol y Cyngor ers blynyddoedd ac fe awgrymir i chi bod y gallu i gyflawni amcanion y strategaeth adnoddau dynol, o leiaf, yr un mor allweddol i'n gallu i ddarparu'r gwasanaethau a geisir gan bobl Gwynedd.

Mae'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol (sef y fforwm ar y cyd rhwng cynrychiolwyr undebau cydnabyddedig ac Aelodau etholedig) yn derbyn adroddiad blynyddol ar weithgaredd ym maes adnoddau dynol ond mae'r adroddiad honno yn canolbwyntio ar y berthynas weithredol rhwng y cyflogwr a cynrychiolwyr y gweithlu.

Bwriad yr adroddiad hon yw cyflwyno manylion am natur y gweithlu a'u cyflogaeth yn ogystal ag amlinellu amcanion ar gyfer datblygu'n gweithwyr a gosod cyfeiriad strategol ar gyfer y dyfodol (gweler fel atodiad y Cynllun Pobl arfaethedig ar gyfer 2016-18).

Byddwn yn adeiladu ar gynnwys yr adroddiad blynyddol presennol trwy ddadansoddi unrhyw newidiadau yng nghyfansoddiad ac arferion y gweithlu fydd, yn ei dro, yn ein cynorthwyo i flaenoriaethu ac addasu'r rhaglen waith yn ôl yr angen.

## 1. Gweithlu'r Cyngor

Nodir yma y niferoedd a gyflogwyd ar sail llawn-amser a rhan-amser o fewn y Cyngor am y dair blynedd diwethaf. Noder bod y niferoedd hyn yn cynnwys staff sy'n gweithio yn ein hysgolion ond nid y staff hynny a gyflogir yn achlysurol yn ystod cyfnodau gwyliau/salwch y gweithlu sefydlog.

| | 31/3/14 | 31/3/15 | 31/3/16 |
|---|---|---|---|
| Llawn amser | 3,178 | 2,967 | 2,965 |
| Rhan amser | 3,290 | 3,318 | 3,029 |
| Cyfanswm | 6,468 | 6.285 | 5,994 |


Mae'r manylion yn arddangos gostyngiad o 474 yn y nifer o unigolion a gyflogwyd gan y Cyngor ar ddiwedd Mawrth eleni o'i gymharu a'r un adeg yn 2014 h.y. gostyngiad o 213 cytundeb cyflogaeth llawn-amser a 261 rhan-amser. Mae'r gostyngiad hwn wedi'i wireddu trwy gyfuniad o ddiswyddiadau, ymddeoliadau a throsiant naturiol.

## 2. Rhaniad y Gweithlu yn ol Rhyw

Yma gwelir dadansoddiad pellach o'r nifer dynion a merched a gyflogwyd yn llawn-amser ac yn rhan-amser yn ystod yr un cyfnod. Mae'r manylion yn arddangos gostyngiad o 104 o ddynion a 109 o ferched llawn-amser tra bo'r nifer o ferched a gyflogwyd yn rhan-amser wedi gostwng o 208 o'i gymharu a 53 o ddynion.


| | | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|
| Llawn amser | Dynion | 1,474 | 1,399 | 1,370 |
| | Merched | 1,704 | 1,568 | 1,595 |
| Rhan amser | Dynion | 352 | 350 | 299 |
| | Merched | 2,938 | 2,968 | 2,730 |
| | | | | |
| Cyfanswm | Dynion | 1,826 | 1,749 | 1,669 |
| | Merched | 4,642 | 4,536 | 4,325 |
| Cyfanswm % | Dynion | **28.2%** | **27.8%** | **27.8%** |
| | Merched | **71.8%** | **72.2%** | **72.2%** |

Gweler ymhellach ddadansoddiad o'r rhaniad dynion a merched yn adrannau'r Cyngor fel ag yr oedd yn ymddangos ar Fawrth 31ain 2016.





## 3. <u>Proffil oedran staff y Cyngor</u>


Nodir yma proffil oedran staff y Cyngor fel ag yr oedd yn ymddangos ar Fawrth 31ain 2016. Mae'n arddangos bod dros 63% o weithlu presennol y Cyngor yn hyn na 40 oed tra bo 34.5% yn hyn na 50 oed.




**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

Mae cadw cofnod, dadansoddi a rhannu'r wybodaeth yma yn allweddol i allu rheolwyr i gynllunio ar gyfer y dyfodol ac yn hynny o beth i ystyried y camau sydd angen eu cymryd yn rhagweithiol er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau. Gwelir isod ddau dabl enghreifftiol sy'n darparu darlun clir o broffil oedran presennol ein uwch reolwyr a'n Grŵp Rheoli Corfforaethol (penaethiaid adran, y cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr). Noder nad yw'r tablau isod yn cynnwys staff mewn ysgolion ond maent yn cynnwys swyddogion yr Asiantaeth Cefnffyrdd a GwE.






**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

## 4. Trosiant Staff


Yn hanesyddol mae trosiant o fewn y Cyngor wedi bod yn gymharol sefydlog ond mae patrwm o gynnydd bychan o flwyddyn i flwyddyn wedi amlygu'i hun dros gyfnod o flynyddoedd (er bod y dystiolaeth isod yn arddangos bod trosiant wedi sefydlogi ar 9.7% dros y ddwy flynedd diwethaf).

Mae'r trosiant mwyaf i'w weld o fewn rhai o wasanaethau'r Adran Economi a Chymuned (17.4%), Rheoleiddio (10.6%) a Plant a Chefnogi Teuluoedd (10.2%) tra bo trosiant ar ei isaf o fewn Ymgynghoriaeth Gwynedd (8.9%), yr Adran Addysg (9%) ac Oedolion Iechyd a Llesiant (9.3%).




## 5. Absenoldebau Salwch


Mae'r nifer o ddyddiau a gollir oherwydd salwch ar draws y Cyngor wedi gostwng oddeutu 20,000 o ddyddiau gwaith llawn-amser dros y 7 mlynedd diwethaf ac mae'r cyfartaledd dyddiau y pen a gollir i salwch ar draws y Cyngor wedi gostwng o 10 diwrnod y pen yn 2008/09 i 8.44 diwrnod y pen yn 2015/16. Mae'r tabl isod yn arddangos lefelau yr absenoldebau salwch, fis wrth fis, am y dair blynedd diwethaf.




**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

Mae'r pwyslais a roddir ar reoli absenoldebau yn effeithiol, ac ar y rhaglen hybu iechyd a llesiant, wedi cyfrannu at y gwelliant hwn ac mae'n bwysig nad yw'r Cyngor yn colli ffocws ar y gwaith hwnnw a'r cyfleon i leihau absenoldebau ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r tabl isod yn dadansoddi ymhellach y math o salwch sydd wedi'i gofnodi ar gyfer absenoldebau dros y dair blynedd ddiwethaf. Defnyddir yr wybodaeth yma i lywio'r drafodaeth pan yn ystyried cynnwys y rhaglen hybu iechyd a lles yn flynyddol.




Mae absenoldeb salwch, yn 2015/16, ar ei uchaf o fewn y Gwasanaeth Glanhau (17 diwrnod), Gwasanaeth Preswyl a Dydd (15.6 diwrnod) a Gofal Cymunedol (13.5 diwrnod) tra bo absenoldeb salwch ar ei isaf o fewn Ymgynghoriaeth Gwynedd (5.2 diwrnod) a'r Adran Cyllid (5.6 diwrnod). Mae gweithgor o swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu achosion unigol o absenoldeb ac yn naturiol yn canolbwyntio eu hymdrechion o fewn y gwasanaethau hynny ple bo lefelau salwch yn uchel.

Mae'n bwysig nodi yma na fu 38.4% (2,301) o staff y Cyngor yn absennol o gwbl oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn diwethaf.

## 6. <u>Dysgu a Datblygu</u>

Mae'r nifer o ddyddiau hyfforddi traddodiadol a ddarperir gan y Gwasanaeth Hyfforddi corfforaethol wedi gostwng dros y dair blynedd diwethaf ( o 3,043 yn 2013-14 i 1,794 yn 2015/16). Ar yr wyneb byddai hynny yn creu pryder bod y cyfleon i  staff y Cyngor ddysgu a datblygu yn gostwng. Fodd bynnag, yr hyn mae'r

ffigyrau hyn yn eu hadlewyrchu mewn gwirionedd yw'r ffaith bod dysgu a datblygu o fewn y Cyngor yn cael ei ddarparu mewn nifer o ffyrdd amgen erbyn hyn e.e. e-ddysgu, cymell, mentora a.y.b.

Cynigir ymgynghoriadau datblygiad personol i staff hefyd sydd, yn eu tro, yn cynorthwyo unigolion a thimau cyfan i adnabod sgiliau sydd angen eu datblygu yn ogystal a sut orau i ddarparu'r dysgu hwnnw. Mae'r pwyslais ar y cyfuniad o ddysgu trwy brofiad, dysgu'n gymdeithasol (megis cymell, mentora, derbyn adborth) yn ogystal a dysgu traddodiadol, yn dechrau gwreiddio o fewn y Cyngor. Bydd datblygiadau pellach i hyrwyddo hyn yn sgil rhai o'r ffrydiau gwaith yn y Cynllun Pobl, a fydd yn ceisio sicrhau nad yw'r modd y cynigir hyfforddiant ynddo'i hun yn rwystr i ddatblygiad personol.

## 7. Strwythur Tal a Chyflog Cyfartal

Cymeradwywyd y Polisi Tal ar gyfer 2016/17 gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar Fawrth 3ydd 2016. Bu i'r camau a gymerwyd gan y Cyngor cyn hynny, law yn llaw hefo'r gytundeb cyflog cenedlaethol ddiweddaraf ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol, arwain at leiafswm cyflog o £7.65 yr awr oddi ar Ebrill 1af 2016 (fydd yn codi i £7.90 yr awr oddi ar Ebrill 1af 2017). Adroddwyd i aelodau'r Cabinet yn gynharach yn y flwyddyn bod trafodaethau yn cael eu cynnal hefo cynrychiolwyr yr undebau llafur yng nghyswllt ceisio sicrhau modd o gynyddu lleiafswm cyflog y Cyngor ymhellach. Mae'r trafodaethau hynny yn parhau ar lefel lleol a chenedlaethol.

Mae'r gwaith o geisio setlo y ceisiadau cyflog cyfartal a gyflwynwyd i'r Tribiwnlys yn ôl yn 2008 hefyd wedi parhau gyda chamau breision wedi'u cymryd ers Hydref 2015 i ddod a'r mater i'w derfyn. Rhagwelir y bydd yr ychydig achosion nad ydynt wedi'u setlo hyd yma, yn dod i'w terfyn erbyn Tachwedd eleni.

## 8. Datblygu'r Arweinyddiaeth

Mae'r pwyslais wedi'i roi ar ddatblygu trefniadau gwerthuso amgen sydd yn canolbwyntio ar yr ymddygiadau disgwyliedig er mwyn hyrwyddo'r diwylliant o rymuso, galluogi a chyflawni ymysg gweithlu'r Cyngor. Daethpwyd a'r trefniadau gwerthuso blaenorol i ben yn Chwefror 2015 ac yn raddol ers Hydref y llynedd, mae'r Cyngor wedi cyflwyno trefn o werthuso parhaus ar gyfer swyddogion gan osgoi'r sefyllfa o gynnal "digwyddiad gwerthuso blynyddol". Lawnsiwyd y trefniadau hyn hefo aelodau Grŵp Rheoli y Cyngor gan raeadru'r drefn newydd trwy'r Uwch Reolwyr i reolwyr a gweddill swyddogion y Cyngor. Mae derbyn adborth gan eraill, yn gydweithwyr, yn reolwyr neu ran-ddeiliaid, yn ganolog i'r trefniadau diwygiedig gyda'r anogaeth i gyflwyno'r adborth hynny mewn modd agored a pharchus i'n gilydd.

Nid yw'r trefniadau newydd wedi gwreiddio ar draws y Cyngor cyfan hyd yma ond mae'r pwyslais ar gynnal y drafodaeth, yn hytrach nac ar gwblhau'r gwaith papur, yn cael ei groesawu ac yn dwyn ffrwyth yn y mannau hynny ple bo'r trefniadau yn weithredol.

Sefydlwyd Grŵp Uwch Reolwyr y Cyngor yn ystod y flwyddyn gyda'r bwriad o ddarparu cyfleon i ddatblygu darpar-arweinwyr y dyfodol. Mae'r cylch gorchwyl ar

gyfer y Grŵp yn cynnwys derbyn comisiwn gan y Grŵp Rheoli i gyflawni gwaith ar faterion corfforaethol ac yn fforwm i herio, gwirio a rhannu profiadau yn y meysydd cyfrifoldeb hynny sy'n berthnasol i bawb.

## 9. Recriwtio a Penodi

Gwelir isod fanylion ystadegol ynglŷn a'r nifer o swyddi a hysbysebwyd gan y Cyngor yn ystod y dair blynedd diwethaf ynghyd a'r nifer ceisiadau a dderbyniwyd ac hefyd y nifer o swyddi ple bu'n angenrheidiol ail-hysbysebu. Mae dadansoddi'r manylion hyn eto yn cyfrannu at ein gallu i adnabod meysydd ple bo angen i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt yng nghyswllt datblygu arbenigeddau a chynllunio'r gweithlu ar gyfer y dyfodol.

| Blwyddyn | Nifer o swyddi hysbysebwyd | Nifer Ceisiadau | Nifer o swyddi a ail hysbysebwyd | Nifer ceisiadau am yr ail hysbyseb |
|---|---|---|---|---|
| 2013 | 462 | 2938 | 20 | 115 |
| 2014 | 433 | 2055 | 29 | 138 |
| 2015 | 442 | 2525 | 30 | 106 |
| 2016 | 390 | 1821 | 40 | 142 |

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Iaith ar Ebrill 21ain eleni yn amlinellu trefniadau diwygiedig ar gyfer gweithredu gofynion y Polisi Iaith ym maes recriwtio a penodi. Derbyniwyd cefnogaeth aelodau'r Pwyllgor i fabwysiadu fframwaith diwygiedig ar gyfer dynodi lefel ieithyddol ar gyfer swyddi a staff ac hynny ar sail lefelau iaith CBAC Cymraeg i Oedolion. Mae'r diffiniadau a fabwysiadwyd yn cynnig gwell arweiniad i reolwyr ar gyfer dynodi lefelau ieithyddol priodol ac hefyd yn cynnig safonau cydnabyddedig ar gyfer mesur y cynnydd a chyrhaeddiad unigolyn.

Ymhellach, derbyniwyd hefyd na ddylid gosod cyfyngiadau amser ar gyfer dysgu'r iaith i'r lefel angenrheidiol ond pwysleisiwyd yr angen i fonitro cynnydd pob unigolyn yn rheolaidd.

Mae'r gwaith o ddynodi lefelau ieithyddol ar gyfer pob swydd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gydag asesiad o'r gofynion hyfforddi i ddilyn wedi hynny.

## 10. Cynllun Pobl

Mae'r Cynllun Pobl arfaethedig (Atodiad 1)yn gosod cyfeiriad ac yn blaenoriaethu'r ffrydiau gwaith ar gyfer datblygu'r gweithlu am y cyfnod rhwng eleni a 2018. Mae "Ffordd Gwynedd" yn yrrwr canolog i'r uchelgais yn y Cynllun ac mae'r rhaglen waith yn seiliedig ar yr hyn sydd angen ei wneud i gyrraedd yr uchelgais. Bydd angen adolygu'r Cynllun yn rheolaidd er mwyn adlewyrchu y newid cyson a chynyddol a ragwelir yn y maes cyflogaeth a bydd hynny'n digwydd mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet (Adnoddau) yn ogystal a'r Grŵp Rheoli/Grŵp Uwch Reolwyr.

Er bod y ffrydiau gwaith unigol yn cael eu cydlynu gan swyddogion o fewn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, mae'r uchelgais yn perthyn i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd

ac yn hynny o beth mae'n allweddol bod pob rheolwr ac arweinydd yn cymryd perchnogaeth o'r hyn a geisir ei wireddu.

**CASGLIADAU**

Mae'r holl wybodaeth ystadegol a gynhwysir yma, o'i ddadansoddi yn ofalus, yn gymorth i reolwyr, a'r swyddogion hynny sydd yn eu cynghori, i gynllunio gwasanaeth ac adnabod yn amserol y materion hynny sydd angen ymchwilio a gweithredu ymhellach arnynt e.e. cynllunio'r gweithlu.

Mae angen datblygu a chynyddu'r defnydd a wneir o'r holl ddata a ddelir er mwyn ein cynorthwyo i flaenoriaethu'r gefnogaeth a'r anogaeth sydd ei angen ar weithwyr a darpar-weithwyr i allu rhoi o'u gorau. Mae'r ffrwd gwaith hwn yn ymddangos yn y Cynllun Pobl ac mae datblygu'r maes hwn yn allweddol i alluogi'r Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol gyflwyno model busnes diwygiedig fydd yn grymuso ac yn galluogi rheolwyr i fod yn rhagweithiol yn eu rôl o reoli pobl i'r dyfodol.

Gofynnir i'r Cabinet gyflwyno sylwadau ar gynnwys yr adroddiad yn ogystal a chymeradwyo'r amcanion a nodwyd ar gyfer y dyfodol yn y Cynllun Pobl.

Gofynnir i'r Cabinet gyflwyno sylwadau ar gynnwys yr adroddiad yn ogystal a chymeradwyo'r amcanion a nodwyd ar gyfer y dyfodol yn y Cynllun Pobl.

**CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Gofynnir i'r Cabinet gyflwyno sylwadau ar gynnwys yr adroddiad yn ogystal a cymeradwyo'r amcanion fel a nodir ar gyfer y dyfodol yn y Cynllun Pobl.  Mae'r camau nesaf a'r amserlen fel a nodwyd yn y Cynllun Pobl.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'n ystrydeb dweud mai staff y Cyngor yw ein hadnodd pwysicaf. Ond, ystrydeb neu beidio, mae hynny'n wir. Ni all y Cyngor gyflawni ei amcan o roi Pobl Gwynedd yn ganolog i bob dim rydym yn ei wneud heb bod y staff wedi eu datblygu, grymuso a'u cefnogi i gyflawni ar ran y bobl.

Mae'r adroddiad hwn yn gwneud dau beth. Yn gyntaf, mae'n rhoi darlun o'n gweithlu sydd yn ddefnyddiol ac yn cynnig rhai heriau, er enghraifft o ran proffil oedran y gweithlu gyda golwg ar ddarparu gwasanaethau i'r dyfodol. Yn ail, mae'r Cynllun Pobl yn adnabod y meysydd hynny sydd angen sylw er mwyn galluogi'r Cyngor i gael y gweithlu mwyaf addas.

**Y Swyddog Monitro:**

Drwy adrodd ar drosolwg o amgylchiadau staffio'r Cyngor mae cyfle i'r Cabinet dderbyn gwybodaeth a chyd-destun ynglŷn a'r naws hanfodol yma. Mae'r argymhelliad i fabwysiadu  Cynllun Pobl yn gyfle i osod fframwaith  a rhoi arweiniad priodol ar gyfer staffio'r awdurdod i'r dyfodol.

**Pennaeth yr Adran Cyllid:**

Rwyf yn croesawu'r bwriad i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Adnoddau Dynol. Mae'n enghraifft pellach o ymrwymiad y Cyngor i baratoi ymlaen llaw a chynllunio'n drwyadl wrth wynebu heriau'r dyfodol.

# Cynllun Pobl

## 2016 - 2018

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL





**Datblygu'r gweithlu a chefnogi'r diwylliant sydd ei angen i sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym ni yn ei wneud**

# CYFLWYNIAD

Mae'r Cynllun Pobl hwn yn gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu'r gweithlu am y cyfnod 2016-2018 er mwyn gallu cwrdd ag anghenion Pobl Gwynedd. Mae'n edrych ar gyflwyno casgliad o drefniadau gwaith, ymddygiadau a diwylliant fydd yn caniatáu i ni roi pobl Gwynedd yn ganolog ar bob adeg. Hefyd, mae'r Cynllun yn adnabod y meysydd i'w datblygu er mwyn ymgyrraedd at y weledigaeth hon.

**Mae pob gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor yn ddibynnol, i wahanol raddau, ar ei staff. Mae sicrhau gweithlu priodol er mwyn cwrdd â'r heriau yn holl bwysig i wireddu gweledigaeth y Cyngor i'r dyfodol.**



## Pwrpas y Cynllun Pobl

Mae Pobl Gwynedd yn disgwyl ac yn haeddu'r gwasanaethau gorau posibl ac mae ansawdd y gweithlu y mae'r Cyngor yn ei gyflogi yn ffactor pwysig yn hyn. Mae ystyried y ffordd mae'r Cyngor yn recriwtio a dewis staff, datblygu eu sgiliau a sicrhau bod ganddynt y gallu i weithredu i'w llawn potensial, mewn awyrgylch diogel, yn allweddol.

Mae'r Cynllun Pobl yn gosod rhaglen o waith datblygol a luniwyd gyda'r bwriad o alluogi'r Cyngor i greu'r gweithlu mwyaf addas i;

- wireddu blaenoriaethau Cynllun Strategol y Cyngor
- gwrdd â'r heriau sy'n deillio o'r sefyllfa ariannol

gael gwared a'r rhwystrau sy'n atal y gallu i gyflawni anghenion pobl Gwynedd

Mae'r Cynllun wedi'i seilio ar y penawdau isod:

- **Y GYRRWYR -** PAM FOD ANGEN Y NEWIDIADAU YN Y CYNLLUN HWN?
- **YR UCHELGAIS -** BETH YW'R GOFYN?
- **Y RHAGLEN WAITH -** BETH SYDD ANGEN EI WNEUD I GYRRAEDD YR UCHELGAIS
- **CYFRIFOLDEBAU -** PWY SY'N GYFRIFOL AM WEITHREDU'R CYNLLUN HWN?
- **Y MESURAU -** SUT YDAN NI'N GWYBOD BOD NI'N LLWYDDO?

# Y GYRRWYR

## PAM FOD ANGEN Y NEWIDIADAU YN Y CYNLLUN HWN?

### Cynllun Strategol y Cyngor

***Cefnogi Pobl Gwynedd i ffynnu mewn cyfnod anodd***

Mae gan Gynllun Strategol y Cyngor gyfres o weledigaethau sydd yn disgrifio'r gwahaniaeth mae'r Cyngor eisiau ei wneud o fewn meysydd penodol. Un o'r prif feysydd yw "Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor" gyda'r weledigaeth o sicrhau bod "Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud". Y deilliannau ar gyfer y weledigaeth hon yw:

### Ffordd Gwynedd



Ffordd Gwynedd yw'r enw a roddwyd ar y "ffordd" y bydd Cyngor Gwynedd yn sicrhau ei fod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Fel corff sydd yn bodoli i wasanaethu pobl Gwynedd, fe ddylai'r diwylliant a'r trefniadau gwaith gefnogi'r nod hwn.

Mae'r Strategaeth yn adnabod nifer o feysydd sydd angen sylw os ydi'r Cyngor am ddilyn Ffordd Gwynedd yn llwyddiannus. Adnabuwyd meysydd penodol sy'n gysylltiedig â'r gweithlu o fewn Strategaeth Ffordd Gwynedd, fel:

- Arweinyddiaeth
- Rheolwyr
- Staff
- Trefniadau Ymgysylltu
- Cyfundrefn Perfformiad
- Trefniadau Llywodraethu
- Trefniadau Darparu Gwasanaethau
- Polisïau
- Cyfundrefnau Cyflogaeth

Mae hyn yn cynnwys cynnal adolygiad o wasanaethau presennol fydd yn anorfod yn arwain at newid diwylliant.

Mae'r Cynllun Pobl yn cynnwys y gwaith sydd angen ei wneud dros y blynyddoedd nesaf er mwyn sicrhau bod y meysydd penodol hyn yn cyrraedd y safon angenrheidiol i gefnogi Ffordd Gwynedd.




Fel rhan o reolaeth adnoddau dynol yn y Cyngor cesglir nifer o fesurau allweddol sydd yn cael eu defnyddio i asesu effaith ac fel tystiolaeth i osod cyfeiriad.

## Sefyllfa Ariannol

Mae'r Cyngor yn wynebu heriau ariannol digynsail yn ystod cyfnod y Cynllun Pobl hwn. Mae gostyngiad yn y gyllideb ynghyd â chynnydd mewn galw am wasanaethau yn ein gorfodi i ymgyrraedd at fwy o arloesi, hyblygrwydd ac effeithlonrwydd. Golyga hyn bod angen i staff ddatblygu ac ymarfer sgiliau newydd.

Mae'n anochel y bydd y cyni ariannol a chyflwyno dulliau newydd o weithio yn arwain at weithlu o faint llai. Bydd yn angenrheidiol sicrhau y gall y Cyngor gefnogi gweithwyr i barhau mewn cyflogaeth, bo hynny o fewn neu thu hwnt i'r Cyngor.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



Mae dyletswydd ar y Cyngor i weithredu yn unol a'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu ac hynny heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

Mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd yr effaith hirdymor y caiff y datblygiadau arfaethedig yn y Cynllun hwn yn unol a gofynion y Ddeddf.

## Ymgysylltiad Staff

Yn ystod cyfnodau o newid mae'n bwysig cynnal lefelau uchel o ymgysylltiad staff. Er mwyn lleihau'r effaith y gall ansicrwydd ac ansefydlogrwydd y blynyddoedd nesaf eu creu, bydd yn angenrheidiol gweithio'n galed ar bob agwedd o ymgysylltiad staff. Heb staff ymgysylltiedig yn hyrwyddo newid mae'n annhebyg y bydd y Cyngor yn llwyddo i gyflawni ei gynlluniau.

## Gwerthoedd y Cyngor

Mae'r Cynllun Pobl hwn yn datgan sut y byddwn yn cefnogi ein gweithlu i ddatblygu er mwyn cwrdd â heriau mewn modd sy'n cefnogi ein gwerthoedd. **"Parch, Gwasanaethu, Positif, Gweithio fel Tîm, Gwerth am Arian"** yw'r gwerthoedd gaiff eu harddel gan staff y Cyngor.

Mae Cyngor Gwynedd yn sefydliad cymhleth ac amrywiol. Os yr ydym am alluogi ein gweithlu i weithio'n effeithiol ar draws ein hystod eang o weithgareddau, mae'n rhaid i ni fod yn glir ynghylch y ffordd yr ydym yn gweithio, a'r gofynion sy'n ddisgwyliedig i'r dyfodol



# YR UCHELGAIS –

## BETH YW'R GOFYN?

Roedd canfod y sefyllfa bresennol yn allweddol fel man cychwyn i adnabod lle sydd angen newid er mwyn cwrdd â gofynion y dyfodol. Gwnaed hyn trwy siarad ag arweinwyr, staff a rheolwyr ar bob lefel o'r Cyngor. Drwy ddefnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael a thrwy edrych mor fanwl ag sy'n bosib i'r dyfodol mae'r amcanion isod wedi'u hadnabod fel rhai sy'n cwmpasu'r newidiadau a fydd yn angenrheidiol i'w cyflawni er mwyn sicrhau ein llwyddiant i'r dyfodol. Mae'r paragraffau isod sy'n amlinellu'r uchelgais ar gyfer gweithlu wedi eu grwpio o dan y meysydd datblygol Ffordd Gwynedd.

**Cydnabyddir nad yw hwn yn amcan hawdd. Mae unrhyw ymdrech i newid diwylliant yn cymryd amser sylweddol i wreiddio ac yn ddatblygiad parhaus.**





**Arweinyddiaeth sy'n amlygu bod Ffordd Gwynedd yn bwysig ac yn cynnal y weledigaeth**

**Byddwn wedi sicrhau:**

- arweinyddiaeth sy'n ysbrydoli ac ysgogi staff ac sy'n arwain trwy esiampl
- fframwaith cyfathrebu mewnol effeithiol sy'n cyfleu ac hyrwyddo gweledigaeth y Cyngor yn barhaus

**Rheolwyr sydd "yn y gwaith" yn grymuso ac arfogi staff i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid ac edrych am ddulliau o wyro'r galw am ein gwasanaethau; yn deall anghenion cwsmeriaid a chael gwared a rhwystrau.**

**Staff sydd wedi eu grymuso a'u harfogi i weithredu'n hyblyg i gyflawni anghenion cwsmeriaid ac i fynd ar ôl cyfleoedd i ddileu galw am wasanaethau**

**Byddwn wedi sicrhau:**

- gweithlu sy'n ymwybodol o'i rôl
- gweithlu gyda'r sgiliau priodol, agwedd bositif tuag at waith a'r hyder i wneud penderfyniadau priodol er mwyn budd pobl Gwynedd
- gweithlu iach ac ymrwymedig
- diwylliant positif at iechyd, diogelwch a llesiant
- rheolwyr sy'n defnyddio'r dulliau a steil addas er mwyn datblygu potensial y gweithlu
- rheolwyr a staff sydd wedi eu paratoi a'u harfogi ar gyfer wynebu newid ac yn meddu ar y sgiliau a gwybodaeth i ymdopi gyda newid er mwyn cyflawni'n effeithiol
- bod pob aelod o'r gweithlu'n teimlo'n rhan o'r Cyngor ac yn cael eu gwerthfawrogi trwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu effeithiol

## Trefniadau ymgysylltu addas er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn o ran yr hyn sydd o bwys i bobl Gwynedd ac ymhle i flaenoriaethu ein hadnoddau

**Byddwn wedi sicrhau:**

- Gweithlu sy'n cyfrannu at ddiwallu anghenion
- Gwasanaethau ymgynghorol sy'n gwireddu anghenion rheolwyr a staff

## Trefn rheoli perfformiad sy'n mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd (a defnyddio'r mesurau hynny i yrru gwelliant parhaus)



**Byddwn wedi sicrhau:**

- diwylliant gwaith sy'n cefnogi, ysgogi ac annog gwelliant parhaus
- diwylliant o ddysgu oddi wrth ymarfer da eraill a rhannu ymarferion gorau'r Cyngor gyda phartneriaid
- unigolion a thimau yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu llawn botensial
- gweithlu sy'n cymryd perchnogaeth am gyflawni ac sy'n atebol am ei ymddygiadau
- cyfle ar gael i bob aelod staff feithrin gwybodaeth, sgiliau, profiadau, dealltwriaeth a chymwysterau maent eu hangen i allu cyflawni dulliau arloesol o ddysgu a datblygu

## Trefniadau llywodraethu sy'n seilio penderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn ar effaith ar bobl Gwynedd

**Byddwn wedi sicrhau:**

- Trefn sy'n meithrin a chefnogi'r ymddygiadau priodol
- Defnydd cyson o ddata a thueddiadau i arwain penderfyniadau ynghylch â'r gweithlu

## Trefniadau darparu gwasanaeth sy'n creu gwerth i'r cwsmer

**Byddwn wedi sicrhau:**

- staff sy'n canolbwyntio ar greu gwerth i'r cwsmer
- lefel uchel o bresenoldeb yn y gwaith
- strwythurau rheolaethol addas er mwyn cefnogi'r gweithlu i gyflawni
- gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill er budd pobl Gwynedd.
- gweithlu sy'n gallu darparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- hyblygrwydd o fewn y gweithlu er mwyn ymateb i anghenion pobl Gwynedd

## Polisïau sy'n hyrwyddo a chefnogi'r gallu i gyflawni anghenion ein pobl yn hytrach na chreu rhwystrau

**Byddwn wedi sicrhau:**

- hybu cydweithio ar draws y Cyngor a'i adrannau a thu hwnt
- diwylliant 'Un Cyngor' sy'n cynnal meddylfryd o weithredu fel sefydliad cyfan
- cysylltiadau positif ac adeiladol gyda staff a'u cynrychiolwyr hefo'r uchelgais o weithio mewn partneriaeth
- cynllunio'r gweithlu ar gyfer y dyfodol gan gynnwys adnabod a datblygu potensial
- Opsiynau gweithio'n hyblyg sy'n hybu cydbwysedd bywyd a gwaith



## Trefniadau Cyflogi sy'n arfogi staff ac yn atgyfnerthu'r ymddygiadau hynny sy'n rhoi pobl Gwynedd yn ganolog

**Byddwn wedi sicrhau:**

- prosesau recriwtio a phenodi sy'n cynnwys asesiad o ymgeiswyr am eu hagwedd a'u potensial
- diwylliant dysgu a datblygu cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y gallu i gyflawni
- buddiannau ariannol ac anariannol ar gael er mwyn denu a chadw staff o ansawdd
- Cyngor Gwynedd yn cael ei gydnabod fel y cyflogwr o ddewis o fewn yr ardal
- amgylchedd gwaith sy'n hyrwyddo'r Gymraeg fel yr iaith naturiol ym mhob agwedd o waith y Cyngor
- bod y Cyngor yn cael ei gydnabod fel arloeswr ym maes adnoddau dynol
- amgylchedd gwaith ysgogol, sy'n cefnogi hunan-datblygiad i'r holl weithlu



# Y RHAGLEN WAITH –

## BETH SYDD ANGEN EI WNEUD I GYRRAEDD YR UCHELGAIS?

Er mwyn gwireddu'r uchelgais lluniwyd rhaglen waith gynhwysfawr ar gyfer cyfnod y Cynllun Pobl. Bydd newid cyson a chynyddol dros y blynyddoedd nesaf a bydd angen adolygu'r Cynllun i adlewyrchu hynny. Cydnabyddir felly na fydd y Cynllun yn aros yn llonydd ond mae'r prosiectau a restrir isod wedi'u hadnabod fel y prif ymyraethau presennol.

| **Arweinyddiaeth sy'n amlygu bod Ffordd Gwynedd yn bwysig ac yn cynnal y weledigaeth** | **Arweinydd** |
|---|---|
| Llunio a chynnal rhaglen datblygu arweinwyr | GO |
| Cyfundrefn gyfathrebu fewnol ar gyfer pawb | SGW |
| | |
| **Rheolwyr sydd "yn y gwaith" yn grymuso ac arfogi staff i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid ac edrych am ddulliau o wyro'r galw am ein gwasanaethau; yn deall anghenion cwsmeriaid a chael gwared a rhwystrau.**<br>**Staff sydd wedi eu grymuso a'u harfogi i weithredu'n hyblyg i gyflawni anghenion cwsmeriaid ac i fynd ar ôl cyfleoedd i ddileu galw am wasanaethau;** | |
| | |
| Sicrhau rheolwyr a staff gyda'r sgiliau priodol i weithredu | SJB |
| Adolygu cynlluniau ar gyfer croesawu staff a rheolwyr newydd | JCC |
| Gwella safon iechyd staff trwy datblygu ac ymestyn y rhaglen hybu iechyd a lles a'i heffaith i bob rhan o'r Cyngor | CL |
| Sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer clywed a gwrando ar lais staff | SJB |
| Darparu modelau busnes sy'n cefnogi grymuso a galluogi rheolwyr a staff | EHW |
| Cyflwyno dulliau arloesol o ddysgu a datblygu er mwyn adnabod a chyfarch gofynion amrywiol | JCC |
| | |
| **Trefniadau ymgysylltu addas er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn o ran yr hyn sydd o bwys i bobl Gwynedd ac ymhle i flaenoriaethu ein hadnoddau** | |
| Cyflwyno cyfundrefn ar gyfer canfod lefel bodlonrwydd o'r gwasanaethau ymgynghorol adnoddau dynol | GO |
| | |
| **Trefniadau llywodraethu sy'n seilio penderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn ar effaith ar bobl Gwynedd** | |
| Cyflwyno a gweithredu cyfundrefn sy'n defnyddio gwybodaeth a data adnoddau dynol i arwain penderfyniadau | EE |
| Cyflwyno cyfundrefn sy'n sicrhau'r budd mwyaf o'r wybodaeth sy'n deillio o'r arolygon staff | SJB |

| | |
|---|---|
| **Trefn Rheoli Perfformiad sy’n mesur yr hyn sy’n bwysig i bobl Gwynedd (a defnyddio’r mesurau hynny i yrru gwelliant parhaus)** | |
| Sefydlu diwylliant o adolygu perfformiad parhaus | GO |
| | |
| **Trefniadau darparu gwasanaeth sy’n creu gwerth i’r cwsmer ac i bobl Gwynedd yn ehangach** | |
| Adolygiadau Gwasanaeth | GR |
| Gwreiddio’r ymgyrch weledol i hyrwyddo’r diwylliant | SJB |
| Ymgorffori ymarferion da dylunio strwythurau i mewn i’r broses ail-strwythuro | EHW |
| Cynyddu lefel presenoldeb staff | EHW |
| Hyrwyddo’r defnydd cyson o’r Gymraeg er mwyn cyfarch anghenion pobl Gwynedd | GO |
| | |
| **Polisïau sy’n hyrwyddo a chefnogi’r gallu i gyflawni anghenion ein pobl yn hytrach na chreu rhwystrau** | |
| Sicrhau bod polisïau corfforaethol yn gweddu i’r diwylliant o gyflawni | JR |
| Adolygu a sicrhau bod amodau gwaith yn adlewyrchu’r diwylliant a geisir ei sefydlu | EHW |
| Hyrwyddo, cefnogi ac hwyluso trefniadau cynllunio’r gweithlu | EHW |
| Hyrwyddo, ysgogi ac hwyluso trefniadau a phatrymau gweithio amgen | SJB |
| Adeiladu a datblygu dealltwriaeth o weithio mewn partneriaeth hefo staff a’u cynrychiolwyr | EHW |
| | |
| **Trefniadau Cyflogi sy’n arfogi staff ac yn atgyfnerthu’r ymddygiadau hynny sy’n rhoi pobl Gwynedd yn ganolog** | |
| Cyflwyno ymarferion da o ran rheoli talent ar draws y Cyngor | JCC |
| Addasu trefn recriwtio i sicrhau bod mesur “sgiliau pobl” yn rhan o’r broses | EHW |

# Y CYFRIFOLDEBAU

## PWY SY'N GYFRIFOL AM WEITHREDU'R CYNLLUN HWN?

Mae'n hawdd cyfyngu atebolrwydd am gyflawni'r Cynllun hwn i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn unig, ond y gwir yw, mae'n perthyn i'r holl Gyngor. I lwyddo, mae angen ein hymrwymiad a'n hegni ni i gyd.

- Mae gan y Tîm Arweinyddiaeth ac Aelodau Etholedig y cyfrifoldeb i arwain trwy esiampl a chyflwyno cyfeiriad sy'n glir a diamwys gydag ymddygiadau priodol i'w cefnogi
- Mae gan bob rheolwr gyfrifoldeb i sicrhau y gall pob aelod o'r gweithlu gyflawni i'w lawn botensial
- Mae perchnogaeth a mewnbwn gweithlu yn hanfodol er mwyn gwneud y Cynllun hwn yn fyw a'i osod fel rhan o'n diwylliant. Trwy ein gweithredoedd ac ymddygiadau gellir dangos bod y Cyngor o ddifrif ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei ddweud.
- Mae gan yr adrannau cefnogol gyfrifoldeb i greu, adolygu a chynnal polisïau a phrosesau perthnasol i gefnogi'r Cynllun hwn, a sicrhau eu bod yn rhai arloesol sy'n parhau i ateb y gofynion trwy ddatblygu'n barhaus.
- Bydd swyddogion o fewn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn cydlynu'r prosiectau unigol ac yn sicrhau mewnbwn gan eraill ar draws gwasanaethau'r Cyngor.



### LLYWODRAETHU'R CYNLLUN

Mae cyfrifoldeb am fonitro cynnydd y Cynllun yn aros gyda'r Aelod Cabinet (Adnoddau) a bydd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn adrodd iddo. Yn ogystal bydd grŵp o swyddogion cynrychioladol yn cadw trosolwg ac yn awgrymu addasiadau i ddatrys newidiadau yn y sefyllfa.

### ADOLYGU'R CYNLLUN

Bydd y materion sy'n gyrru'r Cynllun hwn yn esblygu dros ei gyfnod gweithredu gyda rhai newydd yn codi a phwyslais a blaenoriaeth rhai eraill yn newid. Bydd yn holl bwysig bod y Cynllun ei hun yn esblygu yn yr un modd. Byddwn yn asesu cynnydd ac effaith ein gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i weithio tuag at weledigaeth y Cyngor a bodloni'r gyrrwyr sy'n effeithio arno.

Adolygir y Cynllun yn ffurfiol pob blwyddyn ond bydd y pwyslais ar adolygu'n barhaus. Gwneir hyn trwy gyfuniad o adrodd i'r Aelod Cabinet (Adnoddau) ac ymgynghori gyda'r Grwp Rheoli a'r Grwp Uwch Reolwyr traws-adrannol.

# MESUR YR EFFAITH –

## SUT YDAN NI'N GWYBOD BOD NI'N LLWYDDO?



Cyfuniad o fesuryddion a data rheolaethol yn ogystal ac ymgynghori/ymgysylltu hefo staff a rheolwyr ar draws y Cyngor

**Mesuryddion**

- Canran o staff sy'n bositif ac yn fodlon gyda'r Cyngor fel cyflogwr
- Lefel positifrwydd ymysg trigolion Gwynedd o'r Cyngor fel cyflogwr
- Canran o ymgeiswyr mewnol ac allanol addas ar gyfer swyddi ar bob lefel yn y Cyngor
- Canran staff sy'n gallu darparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- Nifer o ddyddiau absenoldeb salwch y pen
- Nifer o drefniadau gweithio'n hyblyg a barn swyddogion ynglyn a'u heffeithiolrwydd
- Nifer o achosion cyflogaeth sy'n cael eu cyfeirio i sylw'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth, a'r nifer o apeliadau sy'n cael eu caniatáu gan y Pwyllgor hwnnw
- Barn staff y Cyngor ynglyn a natur a chynnwys y pecyn buddiannau a gynigir

**Data Rheolaethol**

Byddwn hefyd yn defnyddio cyfres o ddata rheolaethol ar draws y meysydd gwaith er mwyn miniogi a sicrhau eglurder o'r sefyllfa a chynnydd yn ein rhaglen waith.



# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 1 Tachwedd 2016 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd John Wynn Jones |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet Amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Yr unig addewidion sy'n berthnasol i'r Cynllun Strategol yw'r cynlluniau arbedion ac mae yna ddiweddariad ar y rhain yn rhan 5.

1.3 Byddwn yn eich hatgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafaodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Timau Rheoli perthnasol. (oedd hefyd ar gyfer y cylch yma fel arbrawf yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu).

1.4 Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad yr holl Unedau o fewn yr Adrannau y mae gennyf gyfrifoldeb drostynt.



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

## 3 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

3.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. PERFFORMIAD

4.1 Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

### 4.2 ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

4.2.1 Mae cynnal amgylchedd lleol o safon uchel ac edrychiad strydoedd a mannau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd. Gwaith **Gwasanaethau Stryd** yw cadw ein strydoedd yn lan a thaclus a cheir nifer o fesurau sy'n edrych ar ba mor dda y maent yn gwneud hyn. Ar y cyfan mae perfformiad y mesurau yn dda a 'rwy'n fodlon gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud gyda'r ffigwr diweddaraf o 77.2 ar gyfer y **Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd (STS/005a**) yn rhagori ar ffigyrau'r tair blynedd diwethaf.

4.2.2 Mae'r **Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu** yn gyfrifol am ymdrin â gwastraff mewn modd cynaliadwy. Rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mwyafrif o'r mesurau ar gyfer y gwasanaeth hwn ond byddwn yn tynnu eich sylw i'r pwyntiau canlynol:

- Nodir y cynnydd pellach mewn lefelau **Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio (WMT/009)** i 62.75% erbyn diwedd Gorffennaf. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol o'i gymharu â 54.3% yn 2013/14, 55.25% yn 2014/15 a 58.70% yn 2015/16.
- Er yn nodi'r cynnydd sylweddol sydd wedi ei wneud cydnabyddir fod angen gwneud mwy er mwyn gwella ein perfformiad o'i gymharu ag ardaloedd eraill a gweddill Cymru. Roedd ein cyfradd ni o 58.70% ar ddiwedd 15/16 yn cymharu hefo cyfraddau cyfartalog o 60.19% ar gyfer Cymru a 64.7% ar gyfer y "teulu" o Gynghorau gwledig. Y gobaith yw, unwaith y bydd y drefn 3 wythnos wedi gafael ar draws y Sir y bydd cynnydd yn y cyfraddau. Nodir hefyd y bydd cyflwyno'r Cynllun Trin Gwastraff Rhanbarthol yn arwain at gynnydd sylweddol pellach.
- Rwyf wedi cwestiynu perfformiad y mesur **Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol (PB51)** a'r rheswm bod y gyfradd wedi gostwng yn ystod y misoedd diwethaf o 40.80% ar gyfer Ebrill/Mai i 40.04% ar gyfer Mehefin/Gorffennaf. Nodwyd y rhagwelir y bydd y cyfraddau yn cynyddu eto ar ddiwedd y tymor ymwelwyr ac y dylai newidiadau i'r trefniadau casglu o fewn ysgolion arwain at wella'r sefyllfa yn ogystal. Byddaf yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa.
- Yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd yw bod eu gwastraff yn cael ei gasglu ar y dyddiad cywir. Mae'r Gwasanaeth yn edrych ar sefydlu mesur ar gyfer y nifer o gasgliadau gwastraff/ailgylchu sy'n cael eu methu fel ein bod yn gallu adnabod y rhesymau dros hynny a rhoi sylw i'r agweddau y gallwn ddylanwadu arnynt. Er bod gennym y ffigyrau mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn eu dadansoddi a'u deall cyn y gallwn adrodd yn ôl.

4.2.3 Mae'n bwysig bod busnesau a thrigolion Gwynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y Sir a nod y **Gwasanaeth Priffyrdd** yw cyflawni'r nod hynny gan geisio cynnal safon ein ffyrdd. Gyda'r gostyngiad yn y gyllideb cynnal a chadw mae'n anorfod y bydd elfen o ddirywiad.

4.2.4 Yn flynyddol y caiff y mesurau ar safon y ffyrdd eu mesur ac ar ddiwedd 2015 roedd 3.1% o brif ffyrdd (dosbarth A), 3.4% o ffyrdd dosbarth B a 15.8% o ffyrdd dosbarth C y Sir yn ddiffygiol. Mae'r cyfraddau'n cymharu'n ffafriol hefo'r ffigyrau cenedlaethol lle'r oedd 3.7% o ffyrdd dosbarth A, 4.3% o ffyrdd dosbarth B, a 15.9% o ffyrdd dosbarth B yn ddiffygiol ac ar gyfer Cynghorau'r 'teulu' lle mae'r cyfraddau diffygiol yn 3.5%, 4.4% ac 17%.

4.2.5 Mae gwaith yn parhau i ddatblygu mesur addas ar gyfer pa mor dda y mae'r Gwasanaeth yn ymateb i faterion a gobeithiaf y byddaf yn gallu eich diweddaru ar ddatblygiadau yn fy adroddiad nesaf.

4.2.6 Rwy'n fodlon gyda pherfformiad mwyafrif y mesurau sydd gan y Gwasanaeth ond wedi gosod her ynghylch perfformiad y mesur **Canran galwadau Cynnal Priffyrdd a ddiwallwyd y tro cyntaf (PB58)** sydd wedi gostwng i 88.15% o'i gymharu â 93.37% yn 15/16 a 90.00% yn 14/15. Er mwyn deall y sefyllfa'n well rwyf wedi gofyn iddynt i sefydlu'r rhesymau pam nad yw 11.85% o'r galwadau a wneir ynghylch Cynnal Priffyrdd yn cael eu diwallu y tro cyntaf ac i amlygu sut y bwriedir ymateb i wella'r sefyllfa.

### 4.3 ADRAN YMGYNGHORIAETH

4.3.1 Ar gyfer yr Adran yma mae un prif fesur wedi ei adnabod sef **Elw**. Mae'r tafluniad diweddaraf ar gyfer elw yn -£74,814 ond nid yw hyn yn anarferol ar gyfer yr adeg yma o'r flwyddyn gan fod gwaith ar gyfer y flwyddyn yn parhau i ddod i mewn.

4.3.2 Fel rwyf wedi nodi o'r blaen mae pwyslais y mwyafrif o'r Unedau o fewn yr Adran hon ar greu incwm ond mae agweddau o waith yr **Uned Rheolaeth Adeiladu** a'r **Uned Dŵr ac Amgylchedd** yn cael effaith uniongyrchol ar drigolion Gwynedd.

4.3.3 Mae'r **Uned Rheolaeth Adeiladu** wedi datblygu set o fesurau sy'n mesur eu perfformiad ac wedi adrodd arnynt am y tro cyntaf i'r cyfarfod herio perfformiad diwethaf. Dengys y wybodaeth ar gyfer bodlonrwydd y cwsmer (**Mesur BC-AP-01)** bod y sgôr cyfartalog yn 9.6 allan o 10 tra bod **% y ceisiadau Rheolaeth Adeiladu cynlluniau llawn a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn (BC-AP-02)** yn 87%. Rwyf wedi gofyn iddynt edrych ymhellach am y rhesymau nad oedd pawb yn gwbl fodlon a pam nad oedd ceisiadau wedi eu cymeradwyo er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa.

4.3.4 Mae gwaith pellach angen ei wneud gan yr **Uned Dŵr ac Amgylchedd** cyn y gellir cadarnhau eu cyfres mesurau hwy ac fe drafodwyd hynny yn fy nghyfarfod herio perfformiad diwethaf. Gobeithiaf y bydd rhai cadarn ar gael erbyn y cyfarfod nesaf.

### 4.4 ADRAN RHEOLEIDDIO

4.4.1 Dim ond y maes carbon sydd o fewn fy mhortffolio i yn yr Adran hon. Caiff allyriadau carbon yng Ngwynedd effaith niweidiol ar yr amgylchedd lleol yn ogystal â chyfrannu tuag at effeithiau newid yn yr hinsawdd ar lefel byd eang. Mae'r Cyngor yn chwarae ei ran trwy leihau allyriadau carbon sy'n deillio o'r defnydd o ynni o ffynonellau megis adeiladau annomestig (swyddfeydd ac ati).

4.4.2 Ar hyn o bryd yn flynyddol y cesglir y mesur **Canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig (Eiddo10).** Erbyn hyn mae gennym y gallu i edrych ar berfformiad adeiladau unigol a chymharu defnydd ynni dros gyfnod o amser felly fe ddylem gael gwell syniad o lle'r ydym arni a rhoi amcan o berfformiad yn erbyn y mesur yn ystod y flwyddyn.

4.4.3 Yn hanesyddol wrth gwrs rydym wedi llwyddo i leihau ein hôl troed carbon o 26.20% ers 2005 ac wedi llwyddo i gyflawni arbedion ariannol cronnus o £3.09 miliwn ers cychwyn gwireddu'r cynllun.

5 **SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION**

5.1 Mae tri chynllun hanesyddol cyfwerth a £100,000 heb eu gwireddu (Toiledau Cyhoeddus, Arbedion Ynni Ffridd Rasus a Rhesymoli Banciau Ailgylchu) gan yr **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefo**l ond mae rhaglen waith yn bodoli er eu symud yn eu blaenau. Bellach, yn 2017/18 y rhagwelir y bydd canran o'r arbedion hyn yn cael eu gwireddu.

5.2 Gwelir cynnydd derbyniol iawn gyda chynlluniau 2016/17 lle mae'r oll o'r arbedion effeithlonrwydd a'r toriadau yntau wedi eu gwireddu neu ar y trywydd cywir. Mae'r rhagolygon gogyfer a gwireddu cynlluniau'r ddwy flwyddyn ganlynol hefyd yn addawol.

5.3 Mae'r **Adran Ymgynghoriaeth** wedi gwireddu'r oll o gynlluniau effeithlonrwydd a thoriadau 2016/17, ac yn gwneud cynnydd derbyniol iawn tuag at wireddu cynlluniau'r flwyddyn ganlynol lle mae'r oll ohonynt ar y trywydd cywir.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'r adroddiad sydd gerbron yn un agored a gonest am berfformiad o fewn maes yr Aelod Cabinet. Mae'n dangos cynnydd da yn y mwyafrif o feysydd ond hefyd yn nodi rhai meysydd lle y mae angen gwelliant pellach, fel sefyllfa ariannol Ymgynghoriaeth Gwynedd, canrannau gwastraff masnachol a'r canran galwadau Cynnal Priffyrdd a ddiwallwyd y tro cyntaf. Yn amlwg, mae ymwybyddiaeth o'r materion hyn yn bwysig a hefyd bod cynlluniau pendant ar gyfer eu cyfarch

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadu o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**
Mae'r adroddiad yma rhoi adlewyrchiad teg a cytbwys o sefyllfa'r gwasanaethau. O safbwynt yr agweddau ariannol, gallaf gadarnhau fod cynnydd derbyniol yn cael ei wneud o safbwynt gwireddu cynlluniau arbedion a thoriadau, er gwaethaf sefyllfa heriol iawn.

---





**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad

**ATODIAD 1**

* = Ffigwr is yn welliant

## Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

| Gwasanaeth | Lefel | Pennawd | Perfformiad Blynyddol 2013-14 | Perfformiad Blynyddol 2014-15 | Perfformiad Blynyddol 2015-16 | Perfformiad Blynyddol 2016-17 | Symudiad | Sylwadau'r Adran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd | Mesurau Cyflawni | THS/011a Canran prif ffyrdd (dosbarth A) sydd mewn cyflwr gwael | 4.40 | 3.50 | 3.1 | |  | Dangosydd Blynyddol |
| Priffyrdd | Mesurau Cyflawni | THS/011b Canran ffyrdd (dosbarth B) sydd mewn cyflwr gwael | 4.70 | 3.70 | 3.4 | |  | Dangosydd Blynyddol. |
| Priffyrdd | Mesurau Cyflawni | THS/011c Canran ffyrdd (dosbarth C) sydd mewn cyflwr gwael | 14.70 | 14.2 | 15.8 | |  | Dangosydd Blynyddol |
| Priffyrdd | Mesurau Cyflawni | THS/009 Nifer o ddyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn I atgyweirio holl ddiffygion ar lampau stryd | 2.70 | 3.50 | 2.32 | |  | Dangosydd Blynyddol |

**ATODIAD 1**

* = Ffigwr is yn welliant

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd | Mesurau Cyflawni | PB8 Canran o ddigwyddiadau o ddifrod peryglus i ffyrdd a phafinau atgyweirwyd neu wneuthpwyd yn ddiogel o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd. | 97.20 | 97.00 | 97.8 | 98.3 | | Amcan Misol - Awst |
| Priffyrdd | Mesurau Cyflawni | PB9 Canran o'r archwiliadau diogelwch wedi eu cwblhau o fewn y cyfnod penodedig. | 98.30 | 98.00 | 99 | 99 | | Amcan Misol - Awst |

| Gwasanaeth | Lefel | Pennawd | Gwir 2013-14 | Gwir 2014-15 | Gwir 2015-16 | Targed 2016-17 | Ebrill-Mai | Gwybodaeth Diweddaraf (mis - Gorffennaf) | Symudiad | Sylwadau'r Adran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Stryd | Mesurau Cyflawni | STS/005a Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd | 73.5 | 70.65 | 76.26 | 70.00 | 81.00 | 77.2 | | Seiliedig ar yr arolwg mewnol – disgwyl am yr adroddiad allanol. |
| Gwasanaethau Stryd | Mesurau Cyflawni | STS/005b Canran y priffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyr sydd a'u safon glanweithdra yn uchel neu dderbyniol | 93.5 | 94.3 | 96.7 | 93.00 | 98.57 | 93.58 | | Seiliedig ar yr arolwg mewnol – disgwyl am yr adroddiad allanol. |

**ATODIAD 1**

* = Ffigwr is yn welliant

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Stryd | Mesurau Cyflawni | STS/006 Canran o ddigwyddiadau gwaredu slei bach ar dir perthnasol wedi clirio o fewn 5 diwrnod gwaith I'r amser hysbyswyd | 97.3 | 96.5 | 96.50 | 95.00 | 96.50 | 96.50 | = | Sampl seiliedig ar Ch.1 (ffigyrau terfynol Ch.2 ar gael ym mis Hydref) |
| Gwasanaethau Stryd | Mesurau Cyflawni | PB15 Canran o'r graffiti/posteri sy'n ymguddio arwyddion traffig ac yn achosi peryglon, glanhawyd/cliriwyd o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd. | 100 | 100 | 100.00 | 95-100 | 100.00 | 100 | = | |
| Gwasanaethau Stryd | Mesurau Cyflawni | PB16 Canran o'r graffiti/posteri hiliol/tramgwyddol ar eiddo'r Cyngor, glanhawyd/cliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith i'r amser hysbyswyd. | 100 | 100 | 100.00 | 95-100 | 100.00 | 100 | = | |
| Gwastraff ac Ailgylchu | Mesurau Cyflawni | WMT/004 Canran y gwastraff trefol yrrwyd I'w dirlenwi | 45.94 | 43.33 | 34.34 | 34.00 | 40.00 | 28.3 | ⇧ | |
| Gwastraff ac Ailgylchu | Mesurau Cyflawni | WMT/009 Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio | 54.3 | 55.25 | 58.7 | 59.70 | 58.50 | 62.75 | ⇧ | |

**ATODIAD 1**

* = Ffigwr is yn welliant

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwastraff ac Ailgylchu | Mesurau Cyflawni | PB51 Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol | 30.79 | 35.45 | 41.44 | 43.00 | 40.80 | 40.04 | | |
| Gwastraff ac Ailgylchu | Mesurau Cyflawni | PB60 Uchafswm tunelledd gwastraff pydradwy a dirlenwir (Lwfans tirlenwi) | 19650 | 18603 | 81.47 | 17896.00 | 97.00 | 98 | | |
| Gwastraff ac Ailgylchu | Mesurau Cyflawni | PB56 Canran galwadau Gwastraff a ddiwallwyd tro cyntaf | 94.5 | 95 | 95.86 | 96.00 | 94.24 | 93.55 | | Ystadegau Gorffennaf a Awst |
| Gwastraff ac Ailgylchu | Mesurau Cyflawni | PB57 Canran galwadau Bwrdeistrefol ddiwallwyd tro cyntaf | 92.6 | 91.3 | 93.30 | 94.00 | 92.46 | 89.54 | | Ystadegau Gorffennaf a Awst |
| Priffyrdd | Mesurau Cyflawni | PB58 Canran galwadau Cynnal Priffyrdd a ddiwallwyd tro cyntaf | 86.70 | 90.00 | 93.37 | 94.00 | 92.32 | 88.15 | | Ystadegau Gorffennaf a Awst |

**ATODIAD 1**

* = Ffigwr is yn welliant



## Adran Rheoleiddio

| Uned | Cyfeirnod | Mesur | Amlder monitro | Perfformiad 14/15 | Perfformiad 15/16 | Perfformiad Ch 1 | Perfformiad Ch 2 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynni | Eiddo10 | Canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig. | Blynyddol | 30.3 | 32.60 | - | - | System newydd wedi ei chyflwyno fydd yn ein galluogi i fesur defnydd ynni adeiladau unigol a'i gymharu dros gyfnod o amser felly fe ddylem gael gwell amcan o berfformiad yn ystod y flwyddyn. |

## Adran Ymgynghoriaeth

| Cyfeirnod | Mesur - diffiniad | 2013-14 | 2014-15 | 2015/16 | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriaeth | Elw yn erbyn y targed | - | - | -£166k (Mehefin 2015/16) | -£74,814 |
| BC-AP-01 | Arolwg bodlonrwydd y cwsmer, y ffigwr ar gyfartaledd a roddwyd gan gleientiaid am y gwasanaeth rheolaeth adeiladu (sgor allan o 10) | - | - | - | 9.6 (Ch1) |
| BC-AP-02 | % y ceisiadau Rheolaeth Adeiladu cynlluniau llawn a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn | - | - | - | 87 (Ch1) |
| BC-AP-03 | Nifer y dyddiau ar gyfartaledd a gymerwyd i wirio cais cynlluniau llawn (penderfyniad cyntaf) | - | - | - | 19 (Ch1) |
| BC-AP-04 | Amser ymateb i ymdrin â strwythurau peryglus, ar ôl hysbysiad (oriau) | - | - | - | 2 awr |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 1af Tachwedd 2016 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

### 1 CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Yr unig addewidion sy'n berthnasol i'r Cynllun Strategol yw'r cynlluniau arbedion ac mae yna ddiweddariad ar y rhain yn rhan 5.

1.3 Byddwn yn eich hatgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Tim Rheoli (oedd hefyd ar gyfer y cylch yma fel arbrawf yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu)perthnasol jynghyd a'r Tim Arweinyddiaeth.

1.4 Rwy'n gyfforddus gyda perfformiad yr Adran ar y cyfan ond byddwn yn tynnu eich sylw i'r materion canlynol:

1.4.1 **Canran o apeliadau i'r beirniad allanol sy'n cael eu caniatáu (Parcio4) –** Mae'r mesur wedi ein galluogi i adnabod problemau mewn lleoliad penodol (Maes Caernarfon) ac i roi camau yn eu lle er mwyn ymateb fel yr amlinellir yn 4.2 isod.

1.4.2 **Cludiant 2 a 3 –** Rwyf wedi cwestiynu addasrwydd y mesurau hyn o ran cyfleu y 'stori' i'r dinesydd. Ceir gwybodaeth bellach yn 4.3.

1.4.3 **Canran troseddau sylweddol a gafodd eu datrys drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd (GyC24)-** Mae yna gwestiwn os yw'n mesur y peth cywir a rwyf wedi gofyn i'r gwasanaeth ystyried hynny neu os oes ffordd arall o fesur os ydynt yn cyflawni eu rôl yn effeithiol. Ceir gwybodaeth bellach yn 4.4.



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

**2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

**3 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**4. PERFFORMIAD**

4.1 Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

4.2 Wedi i ni gyflwyno'r mesur **Canran o apeliadau i'r beirniad allanol sy'n cael eu caniatáu (Parcio4)** rydym wedi adnabod y Maes yng Nghaernarfon fel man lle'r oedd nifer uchel o apeliadau yn cael eu caniatáu. O ganlyniad mae camau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn rhoi sylw i'r materion a amlgwyd a rydym yn y broses o newid y cyfyngiadau parcio ar y maes gan sicrhau fod y cyhoedd yn eu deall yn rhwyddach. Dros y 3 mis diwethaf nid oes yr un apêl wedi ei gyflwyno i'r beirniad. Mae hyn yn enghraifft dda yn fy marn i o ddefnyddio mesurau perfformiad i wella'r sefyllfa i drigolion Gwynedd.

4.3 Rwyf wedi herio perfformiad **Cludiant 2 a 3** ac wedi cwestiynu a yw'r mesurau ar eu ffurf presennol yn cyfleu y gwir sefyllfa neu'r 'stori' i'r dinesydd gan ofyn iddynt ystyried a fyddai mesur y nifer o gwynion yn ffordd well o fesur bodlonrwydd hefo'r gwasnaethau dan sylw.

4.4 Bu i ni drafod perfformiad y mesur **Canran troseddau sylweddol a gafodd eu datrys drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd (GyC24)** oedd yn 53% ar gyfer y cyfnod o Ebrill i Gorffennaf 2016 o'i gymharu â 62% ar gyfer chwarter cyntaf 2015/16. Trafodwyd natur yr hyn sydd wedi ei gynnwys o dan y mesur, unrhyw faterion sydd wedi eu hamlygu ynghyd a sut mae achosion yn cael eu cau er mwyn ceisio gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa.

4.5 Cwestiynwyd os yw'n mesur y peth cywir ac os gwneir hynny yn effeithiol ai peidio. O ganlyniad, rwyf wedi awgrymu eu bod yn cydweithio hefo Tîm Ffordd Gwynedd i ystyried os oes modd cael gwell diffiniad ar gyfer y mesur neu sefydlu mesur mwy addas.

5 **SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION**

5.1 O ran cynlluniau 2016/17, mae 85% o'r arbedion effeithlonrwydd yntau wedi eu gwireddu neu ar y trywydd cywir, ac 80% o doriadau'r flwyddyn wedi eu gwireddu. Mae pedwar cynllun sydd ddim ar y trywydd cywir lle mae angen ychydig o waith i yntau eu symud ymlaen neu ddatblygu cynlluniau amgen os na fydd cynnydd dros y misoedd nesaf.

5.2 Er bod cynnydd hefyd tuag at wireddu arbedion y ddwy flynedd ganlynol, mae sawl cynllun yn parhau i fod yn debygol o lithro, gydag un cynllun cyfwerth a £35,000 nad oes modd ei wireddu. Mae'r Adran yn gweithio ar gynlluniau amgen er mwyn cyfarch unrhyw ddiffyg.

5.3 Er bod rhywfaint o waith pellach sydd angen sylw rwyf o'r farn fod yr Adran yn gwneud cynnydd derbyniol iawn tuag at wireddu eu cynlluniau arbedion.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Fel y mae'r adroddiad yn amlygu, rydym yn parhau i ddysgu mewn rhai meysydd o ran adnabod mesurau addas sydd, mewn gwirionedd yn mesur profiad y dinesydd (gweler y sylwadau at fesuriadau Cludiant 2 a 3 a GyC24). Mae hyn yn dangos ein bod fel Cyngor yn datblygu yn ein haeddfedrwydd o ran mesur ac adrodd ar effaith ein perfformiad ar drigolion. Mae hyn i'w groesawu yn fawr iawn.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadu o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**
Mae cyfarfodydd blaenorol o'r Cabinet wedi derbyn gwybodaeth fod amrywiol resymau pam nad yw rhai o gynlluniau arbedion gwreiddiol yr Adran Rheoleiddio wedi'u gwireddu, ond deallaf fod yr Adran yn parhau i ddatblygu arbedion amgen gwerth £278,440. Nodwyd ar 12 Gorffennaf y bydd adroddiad pellach i'r Cabinet cyn Ebrill 2017 er mwyn cymeradwyo manylion y cynlluniau rheiny.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad

* = Ffigwr is yn welliant

# Atodiad 1- Mesurau

| Cyfeirnod | Mesur | Perfformiad 13/14 | Perfformiad 14/15 | Perfformiad 15/16 | 2016/17 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Perfformiad Ch 1 | Perfformiad Ch 2 |
| **Uned Trafnidiaeth Integredig** | | | | | | |
| Cludiant01 | Canran o siwrneiau cludiant cyhoeddus sydd yn brydlon | - | - | 80.00 (ar gyfartaledd) | 75.00 | 78.00 |
| Cludiant02 | Canran o gwsmeriaid sy'n fodlon gyda'r gwasanaeth bws yn gyffredinol | - | - | 50.00 (ar gyfartaledd) | 43.00 | 49.00 |
| Cludiant03 | Canran o gwsmeriaid sy'n fodlon gyda'r gwasanaeth masnachol | - | - | Dim mesur | 100 (12/12) | 100 (7/7) |
| Traffig01 | Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth | - | - | 98.00 (ar gyfartaledd) | 100 (8/8) | 100 (9/9) |
| GStryd01 | Canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth | - | - | 99.00 (ar gyfartaledd) | 100 (285/285) | 100 (16/16) |
| DFF1 | Canran o fynychwyr sydd wedi dysgu bod yn fwy diogel ar y ffyrdd o ganlyniad i'r wers/ hyfforddiant | - | - | 99.00 (ar gyfartaledd) | 100 (285/285) | 100 (796/796) |
| C&G02 | Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth | - | - | Dim mesur | - | 100 (33/33) |
| **Sylwadau**<br>Cludiant01 - 18 allan o 23 bws gwasanaeth wedi ei fonitro yn brydlon. | | | | | | |

| Cyfeirnod | Mesur (diffiniad Cymraeg) | Perfformiad 13/14 | Perfformiad 14/15 | Perfformiad 15/16 | 2016/17 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Perfformiad Ebrill/ Mai | Perfformiad Mehefin/ Gorffennaf |
| **Uned Gwarchod y Cyhoedd** | | | | | | |
| GyC02 | Canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth. | 97 | 97 | 99 | 0 | 97% |
| GyC07 | Canran y busnesau Prosesau Llygredd Awyr sydd wedi cael arolygiad yn ystod y flwyddyn. | 100 | 100 | 100 | 0 | 12% |
| GyC24 | Canran y troseddau sylweddol a gafodd eu datrys drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd | 92 | 88 | 86 | 34 | 53% |
| GyC26 | Canran y busnesau uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen. | 100 | 100 | 99 | 9 | 24% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM9 | Canran y sefydliadau bwyd yn cydymffurfio'n fras a safonau hylendid bwyd (sydd gyfystyr a sgor o 3 neu fwy) | 97.49 | 97.2 | 97.95 | 97.87 | 98.22% |
| GyC-T2 | Cyfartaledd y dyddiau a gymerir i benderfynu cais trwydded tacsis. | - | - | - | 0 | 9 |

**Sylwadau**
GyC02 - 89 o gwsmeriaid wedi cymryd rhan gyda 86 yn nodi eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth.
GyC07 – Her wedi ei roddi ynghylch cynnydd ac ymateb wedi ei dderbyn fod y gyfradd yn gymharol a blynyddoedd blaenorol.
GyC26 - Her wedi ei roddi ynghylch cynnydd ac ymateb wedi ei dderbyn fod y gyfradd yn gymharol a blynyddoedd blaenorol.

| Cyfeirnod | Mesur (diffiniad Cymraeg) | Perfformiad 13/14 | Perfformiad 14/15 | Perfformiad 15/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uned Cynllunio ac Amgylchedd** | | | | | |
| CT30 RHENG1 | Cyrraedd cam allweddol yn y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd. Ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau. Cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd I Lywodraeth Cymru. | - | - | - | 33.20% |
| PLA004b Lleol | Pa mor sydyn mae'r holl geisiadau ar gyfartaledd wedi cymryd i'w penderfynu (Dyddiau) | - | - | 60 | 51.75 |
| *PLA004b (Mesur Cenedlaethol)* | *Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu pennu o fewn 8 wythnos* | *72.86%* | *76.44%* | *82.30%* | *86.06%* |
| PLA/005 | Pa mor sydyn mae'r holl achosion Gorfodaeth ar gyfartaledd wedi cymryd i'w datrys (Dyddiau) | | | 164 | 133 |
| *PLA/005 (Mesur Cenedlaethol* | *Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu datrys o fewn 12 wythnos o gael eu derbyn yn ystod y flwyddyn* | *69.50%* | *71.43%* | *72.75%* | *76.55%* |
| PLA/002 | Canran y ceisiadau cynllunio wedi eu pennu a gafodd eu cymeradwyo | 94.76% | 93.28% | 90.33% | 90.83% |
| Cynllunio01 | Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r lefel gwasanaeth Cynllunio | - | - | 88.68% | 85.90% |

**Sylwadau**
PLA/002 – Gofynnwyd os yw sefydlu'r drefn 'pre-app' wedi gwneud gwahaniaeth ond nodwyd ei bod ychydig yn fuan i sefydlu os ydyw a'i peidio eto.

* = Ffigwr is yn welliant

| Cyfeirnod | Mesur | Perfformiad 13/14 | Perfformiad 14/15 | Perfformiad 15/16 | 2016/17 Perfformiad Ch 1 | 2016/17 Perfformiad Ch 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uned Eiddo Corfforaethol** | | | | | | |
| Eiddo1 | Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith cynnal a chadw | - | 9 | 8 | 8 | 7 |
| Eiddo2 | Canran bodlonrwydd cwsmeriaid cynnal a chadw dros y 6 mis diwethaf. | - | 97.5 | 98.09 | 99.08 | 100.00 |
| Eiddo3 | Canran yr adeiladau'r Cyngor yng nghategori cyflwr da neu dderbyniol | - | 96 | 97.18 | 97.18 | 97.35 |
| Eiddo4 | Canran adeiladau gyda systemau diogelwch priodol mewn lle | - | Newydd | 66 | 70.00 | 75.00 |
| Eiddo5 | Canran o gwsmeriaid sy'n fodlon fod y gwasanaeth a gafwyd yn effeithlon a phwrpasol | - | Newydd | 100 | 100.00 | 100.00 |
| Eiddo11 | Canran o gwsmeriaid sy'n fodlon gyda'r gwasanaeth gafyd gan Uned Datblygu Eidddo yn ystod prosiect adeiladu | - | Newydd | 100 | - | 100% |
| Eiddo13 | Canran o gwsmeriaid sy'n fodlon gyda'u hadeilad newydd ddwy flynedd ar ol gorffen y gwaith | - | Newydd | 100 | - | - |
| Eiddo8a | Incwm o waredu eiddo sydd ar gael i'r Cyngor ail ddefnyddio | - | £1,967,000 | £682,000 | £141,000 | £199,000 |
| Parcio4 | Canran o apeliadau i'r beirniad anibynnol sy'n cael eu caniatau | - | Newydd | 80 | 100.00 | 0.00 |

**Sylwadau**
**Eiddo4** – Nodir nad yw'r cynnydd cystal ag y rhagwelwyd o ganlyniad i berfformiad gwael ymgynghorwyr allannol. Mae'r gytundeb hon wedi ei diddymu ac ymgynghorwyr newydd wedi eu penodi sy'n gwneud cynnydd da a rhagwelir y bydd perfformiad o gwmpas 90% o fewn y mis nesaf.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 1 Tachwedd 2016 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad y Dirprwy Arweinydd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Dirprwy Arweinydd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Timau Rheoli perthnasol ynghyd a'r Tim Arweinyddiaeth.

1.3 Mae perfformiad yr Adran yn foddhaol ar y cyfan ond byddaf yn cadw llygad ar ddatblygiad y prosiect **Y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus** wrth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sefydlu a chadarnhau eu blaenoriaethau.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

## 3 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

3.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

***Y Gymraeg***

**4.1. I1 Cymunedau yn hyrwyddo'r Gymraeg - Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gefnogi a grymuso pedair cymuned gan gynorthwyo trigolion i gynnal asesiad o sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned er mwyn cryfhau statws a defnydd yr iaith.**

**Cynnydd y Prosiect**

4.1.1 Mae'r prosiect yn dal i fynd yn ei flaen o fewn cymunedau Bangor, Dolgellau a Phorthmadog Pwllheli a cheir crynodeb o'r prif weithgareddau isod. Fe'ch atgoffir fod y rhaglen waith ar gyfer y prosiect wedi ei chyd gytuno gyda Llywodraeth Cymru sy'n cyllido'r gwaith trwy Hunaniaith.

**4.1.2 Bangor**

- Mae'r ganolfan iaith wedi agor ac wedi ei phoblogi hefo 8 o staff yr Urdd a Rheolwr/Swyddog Datblygu'r Fenter Iaith. Bydd lawns swyddogol y ganolfan a'r Fenter yn cael ei gynnal gydag Alun Davies AC ar y 14 Hydref ac rwy'n gobeithio i fanteisio ar y cyfle i drafod nifer o faterion gydag o.
- Bydd Cynllun Busnes ar gyfer y Fenter Iaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd y mis fydd yn cynnwys eu gweledigaeth a blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Yn ogystal bydd cyfres o weithgareddau yn dilyn i godi statws y Gymraeg ym Mangor rhwng Medi a diwedd Mawrth a'r tu hwnt.

**4.1.3 Dolgellau**

- Mudiad Adloniant Dolgellau wedi cynnal 4 gweithgaredd ble daeth 183 person i fwynhau adloniant drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6 gweithgaredd ar gyfer dysgwyr wedi eu cynnal gyda 101 o fynychwyr (68 dysgwr)
- Taflenni i hyrwyddo'r Gymraeg mewn busnes wedi eu dosbarthu mewn sioeau amaethyddol lleol a thrafodaethau wedi eu cynnal gyda Grŵp Llandrillo Menai ynghylch posibiliadau i gydweithio.

**4.1.4 Porthmadog/Pwllheli**

- Gwaith yn mynd rhagddo hefo Clwb Hwyl Ifanc y Porth i edrych i gynnal sesiwn ymwybyddiaeth iaith ar gyfer pobl ifanc a darparu cyfleoedd ar gyfer arwain gweithgareddau yn y Gymraeg.
- 15 o weithgareddau wedi eu cynnal gyda grwpiau lleol ym Mhorthmadog sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd angen cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg megis Ras y Cob, Ffair Tremadog a Phrosiect Gweilch y Pysgod.
- Cydweithio hefo 10 o fusnesau ym Mhorthmadog a Pwllheli i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

**4.2 I2 - Y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus – Cynorthwyo sefydliadau cyhoeddus i gynyddu a gwella eu darpariaeth o wasanaethau dwyieithog i drigolion Gwynedd fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol. Drwy gydweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol bydd modd gosod safonau cyson**

**ac eglur, a gweithredu ar y cyd ar gynlluniau fydd yn gwella profiad y defnyddiwr.**

**Cynnydd y Prosiect**

4.2.1 Ychydig iawn o gynnydd sydd wedi bod hefo'r prosiect hyn o ganlyniad i'r aneglurder os bydd yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd a Môn.

4.2.2 Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y 23ain o Fedi yn amlinellu'r cynnydd hyd yma gan ofyn am sylwadau cychwynnol ar y lefel o flaenoriaeth y dylid ei roi i'r maes.

4.2.3 Yn y cyfamser, mae swyddogion uwch o'r holl sefydliadau wedi eu henwebu i fod yn aelodau o'r grŵp fydd yn arwain ar y gwaith a byddant yn cyfarfod ym mis Hydref. Bwriad y cyfarfod hwn fydd sefydlu lle mae pawb arni o ran lefel bresennol y ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg i drigolion ac ystyried y lefel o uchelgais i wella ar hyn.

**4.3 I3 Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol - Sefydlu gwaelodlin a mesur cynnydd yn nefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gyda phobl ifanc.**

**Cynnydd y Prosiect**

4.3.1 Er mwyn sicrhau perchnogaeth o fewn yr Adran Addysg i'r prosiect mae'r cyfrifoldeb dros arwain wedi trosglwyddo i Garem Jackson, Swyddog Addysg. Rwyf innau, fel yr Aelod Cabinet sy'n arwain ar yr iaith, yn aelod o'r Grŵp Siarter Iaith.

4.3.2 Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gyda'r Cydlynwyr Iaith Uwchradd a grŵp dethol o Benaethiaid yn ystod mis Mehefin/Gorffennaf a derbyniwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer datblygu'r prosiect yn yr uwchradd.

4.3.3 Yn sgil y trafodaethau yma, mae strategaeth drafft cychwynnol wedi ei llunio a'r gwaith o'i ddatblygu yn parhau.

**4.4 I4 Awdit o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd -**
**Byddwn yn:**

**i) Ystyried llwyddiant y Cyngor i normaleiddio'r Gymraeg drwy ei adrannau a'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion y sir.**

**ii) Cyflawni gwaith ymchwil er mwyn canfod a chadarnhau i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd gam ymhellach ac yn llwyddo i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng y gwasanaethau rydym yn eu darparu i drigolion y sir.**

**Cynnydd y Prosiect**

4.4.1 Mae'r gwaith o ddadansoddi canlyniadau holiaduron yr awdit wedi ei gwblhau ac rydym wedi adnabod tueddiadau a phocedi o bryderon. Yn dilyn cwblhau'r gwaith mae 4 Adran wedi eu blaenoriaethu ar gyfer y cylch cyntaf o weithredu:

- Economi a Chymuned
- Rheoleiddio
- Ymgynghoriaeth
- Gofal

4.1.2 Mae cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda'r uwch-swyddogion yn yr Adrannau yma i drafod canfyddiadau'r awdit a chytuno ar gynllun gweithredu manwl er mwyn

sicrhau perchnogaeth. Byddaf yn eich diweddaru ar ddatblygiad y gwaith yn fy adroddiadau perfformiad i'r dyfodol.

4.4.2 O ran ymyraethau mwy cyffredinol ar draws y Cyngor, mae'r polisi iaith newydd wedi ei basio a chanllawiau iaith i staff wedi eu diwygio a'u cyflwyno, ac mae canllaw i osod amodau iaith mewn cytundebau yn cael ei ddiwygio.

4.4.3 Yn y cyfamser, rwyf yn awyddus i edrych i mewn i opsiynau er mwyn amlygu'r ffaith fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio ac yn iaith weithredol o fewn y Cyngor mewn lleoliadau megis Siop Gwynedd. Byddaf hefyd yn gofyn i Gofal Cwsmer ystyried os oes modd sefydlu trefn ymhle y cyferchir ac y dechreuir sgyrsiau gyda chwsmeriaid yn y Gymraeg bob amser.

***Cyngor Effeithiol ac Effeithlon***

**4.5 C3 Ymgysylltu - Pwrpas y prosiect hwn yw gwella ymgysylltu ar draws y Cyngor.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2017, bydd y prosiect yma wedi sicrhau bod Strategaeth Ymgysylltu yn cael ei gweithredu ac yn cynnwys cyfres o weithgareddau i wella ymgysylltu ar draws y Cyngor.**

4.5.1 Mae Arolwg Panel Trigolion Haf 2016 ac Arolwg Cyhoeddus Haf 2016 wedi eu cynnal a byddaf mewn sefyllfa i adrodd ar y canfyddiadau yn fy adroddiad perfformiad nesaf.

4.5.2 Yn ogystal, ar hyn o bryd mae gwaith yn mynd yn ei flaen i greu log o brosiectau gan adnabod yr anghenion ymgysylltu cysylltiedig dros y misoedd nesaf er mwyn cytuno ar yr adnodd cyfathrebu canolog fydd ei angen ac ar gael ar eu cyfer.

4.5.3 Er mwyn sicrhau bod ein gwaith ymgysylltu yn parhau i fod yn gyfredol ac yn addas byddaf yn trefnu cyfarfod o'r Grŵp Ymgysylltu yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn sefydlu lle'r ydym wedi ei gyrraedd o ran y rhaglen waith wreiddiol ac i osod cyfeiriad i'r dyfodol.

**4.6 C4 Gweithredu cyfundrefn berfformiad - Pwrpas y prosiect hwn fydd datblygu a gweithredu cyfundrefn berfformiad newydd. Bydd y gyfundrefn yn sicrhau fod timau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, a defnyddir y mesurau hynny i wella perfformiad.**

**Bydd y drefn adrodd ar hynny yn ychwanegu gwerth drwy ddal gwasanaethau yn atebol.**

4.6.1 Erbyn hyn mae cyfresi mesurau'r Adrannau yn dechrau dangos gwahaniaeth ac yn canolbwyntio mwy ar wella amgylchiadau pobl Gwynedd.

4.6.2 Nodir bod yr Hyfforddiant Modiwl Perfformiad wedi llithro rhywfaint ond rwyf wedi gofyn i'r Arweinydd Prosiect roi sylw i hyn er mwyn sicrhau ei fod yn digwydd. O fynychu'r hyfforddiant bydd swyddogion hefo gwell dealltwriaeth o'r trefniadau newydd ac wedi eu harfogi a'r sgiliau i allu dadansoddi a herio perfformiad eu gwasanaethau.

## 5 PERFFORMIAD

5.1 Erbyn hyn mae mwyafrif yr Unedau wedi cadarnhau eu pwrpasau a hefo set o fesurau cysylltiedig. Ceir adroddiad llawn ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio yn ***Atodiad 1.***

5.2 Yn y cyfarfod herio perfformiad hefo'r Gwasanaeth Cyfreithiol bu i ni drafod os oes mesurau mwy addas ar gyfer y meysydd Cofrestru Etholiadol ac Etholiadau na'r rhai presennol. Rwyf wedi gofyn iddynt ystyried os oes modd cyflwyno gwybodaeth ar berfformiad yn y meysydd ar ffurf naratif gan adnabod unrhyw rwystrau neu faterion sydd angen sylw ac amlygu sut mae'r Gwasanaeth yn ymateb.

6 **SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION**

6.1 Mae'r Adran **Cefnogaeth Gorfforaethol** wedi gwireddu'r oll o gynlluniau effeithlonrwydd a thoriadau 2016/17, ac yn gwneud cynnydd derbyniol iawn tuag at wireddu cynlluniau'r ddwy flwyddyn ganlynol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn. Mae'n nodi cryn weithgarwch a phrysurdeb yn y maes ieithyddol, maes lle mae'n anodd iawn gweld canlyniadau buan i waith. Yn y maes Ymgysylltu, fe welwn yn fuan iawn ymateb y cyhoedd yn sgil arolwg yr haf ac, fel y noda'r Aelod Cabinet, bydd y negeseuon pwysig o hynny angen sylw yn y cylch nesaf. Mae'r perfformiad o ran gwireddu arbedion a thoriadau yn ganmoladwy iawn.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadu o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad

* = Ffigwr is yn welliant

## Atodiad 1

### Mesurau Cefnogaeth Gorfforaethol

| Mesur- diffiniad | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Cyfeiriad Uchelgais | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uned Gyfieithu** | | | | | |
| 1. Barn defnyddwyr ar ansawdd gwaith ysgrifenedig | - | 100% | - | Cynnal | Trefn newydd yn cael ei sefydlu |
| 2. Barn defnyddwyr ar ansawdd gwaith cyfieithu ar y pryd | - | 100% | - | Cynnal | Trefn newydd yn cael ei sefydlu |
| **Ymchwil a Dadansoddeg** | | | | | |
| 1. Nifer cwsmeriaid sy'n nodi fod y cymorth wedi eu helpu i gael budd i bobl Gwynedd | - | - | - | - | 22 Do<br>2 Naddo |
| **Sylwadau**<br>1. O'r 2 achos lle atebwyd "naddo" nid oedd y wybodaeth ofynnwyd amdano yn bodoli. | | | | | |
| **Uned Partneriaeth Gwynedd a Môn** | | | | | |
| 1. % o'r partneriaid sydd yn gytûn fod elfennau gweinyddol y partneriaethau o ansawdd ac yn amserol | | | | - | |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | - | - | - | | |
| Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | - | 100% | - | | |
| Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc | - | 100% | - | | 100% |
| 2. % o'r partneriaid sydd yn gytûn fod y cyfarfodydd a'r gwaith partneriaeth yn cyflawni yn effeithiol ar gyfer pobl Gwynedd a Môn | - | - | - | - | Newydd |
| **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** | | | | | |
| 1. Bodlonrwydd adrannau gyda chefnogaeth yr Uned i'w helpu i ymgysylltu gyda phobl Gwynedd | - | - | - | - | 9.5 |
| **Sylwadau**<br>1. Tair Adran wedi sgorio llai na 10 a gwersi wedi cael eu cofnodi er mwyn gwella. | | | | | |
| **Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad** | | | | | |
| **CG26** Pobl Gwynedd yn fodlon gyda'r wybodaeth sydd ar gael iddynt am be mae'r Cyngor yn ei wneud ac am ei wneud yn y dyfodol | - | - | - | Gwelliant | - |
| **CG27** Ydi'r wybodaeth yn eich helpu chi i wybod sut/beth mae'r Cyngor yn ei wneud? | - | - | - | Gosod gwaelodlin | - |
| **Sylwadau**<br>**CG26 a 27** Yn aros am ganlyniadau ymgysylltu hefo'r Panel trigolion ond ymatebion a dderbyniwyd o ffynonellau eraill yn nodi materion fel heb weld y dogfennau, ddim yn teimlo eu bod yn berthnasol a bod y dogfennau yn rhy hir. Nodwyd dymuniad i gadw pethau'n syml a chryno gan ddefnyddio gwybodaeth weledol ac amlygu a chyfleu gwybodaeth am bethau sy'n bwysig i'r cyhoedd megis torri gwair, tyllau yn y ffyrdd, gwagio biniau a baw ci. Mae'r Tîm wedi rhoi camau yn eu lle er mwyn ymateb i'r pwyntiau hyn. | | | | | |

*  =  Ffigwr is yn welliant

| **Tîm Prosiectau** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CG04** Canran o brosiectau, sydd yn cael cefnogaeth y pwl prosiectau sydd wedi cyflawni eu pwrpas yn nhermau amcanion, amser a chost (i'w fesur ar ddiwedd y flwyddyn ariannol) | - | - | - | Gosod gwaelodlin | Blynyddol |
| **CG05** Bodlonrwydd Cwsmer – Bwrdd Prosiect, Arweinydd Prosiect, Uwch Gyflenwr, Uwch Ddefnyddiwr | - | - | - | Gosod gwaelodlin | Sylwadau isod |

**Sylwadau**

**CG04** Yn cael ei fonitro mewn cyfarfodydd un i un gyda phob rheolwr prosiect.

**CG05** Ers y cyfarfod diwethaf, cychwynnwyd ar drefniadau gwerthuso. Mesurir mwyafrif yr wybodaeth nawr drwy'r drefn yma, gyda'r rheolwr yn trafod gyda chwsmeriaid sydd heb eu cynnwys yn rhan o'r trefniadau hyn. Sylwadau wedi eu derbyn fel rhan o'r broses hon a chamau wedi eu cymryd er mwyn ymateb.

## Mesurau Gwasanaeth Cyfreithiol

| **Mesur- diffiniad** | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. Canran o holiadur bodlonrwydd gan sywddogion cleient sydd yn sgorio'r gwasanaeth yn ardderchog neu yn dda. | 98% | 98% | 100% | Cynnal | 100% |
| 2. Y gwasanaeth i gyrraedd anghenion safonau perfformiad Comisiwn Etholiadau ar gyfer Swyddog Canlyniadau mewn etholiad | Cyflawni | Cyflawni | Cyflawni | Cynnal | - |
| 3. Y gwasanaeth i gyrraedd anghenion safonau perfformiad Comisiwn Etholiadau ar gyfer Cofrestru Etholiadol | Cyflawni | Cyflawni | Cyflawni | Cynnal | - |

**Sylwadau**

1. Dim sylwadau negyddol wedi cynnwys ar yr holiaduron yn y flwyddyn hyd yma.
2. Wedi bodloni safonau y Comisiwn ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2015. Yn rhy gynnar eto i fedru adrodd ar etholiadau 2016 (y Cynulliad, Comisiynydd Heddlu a Refferendwm Ewrop) gan nad yw'r Comisiwn wedi adrodd arnynt.
3. Bydd y Cyngor yn cyflwyno gwybodaeth i'r Comisiwn yn fuan ar ôl i'r Gofrestr Etholwyr gael ei chwblhau ym mis Rhagfyr. Nid yw Gwynedd yn uno'r awdurdodau sy'n cael ei fonitro gan y Comisiwn y tro hwn (canran yn cael eu monitro bob blwyddyn).

# CYNGOR GWYNEDD

## ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 1 Tachwedd, 2016 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies,<br>Aelod Cabinet Economi & Chymuned |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Economi & Chymuned |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Economi & Chymuned. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r tîm rheoli Economi, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.

1.3 Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mwyafrif o'r prosiectau a'r mesurau ar gyfer yr Adran Economi a Chymuned.



**Cyswllt:**
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

2.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 3. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

### 3.1. T1 Swyddi Gwerth Uchel ac o ansawdd

3.1.1. Pwrpas y prosiect yma yw gweithio'n rhagweithiol er mwyn creu'r amodau cywir i ddatblygu swyddi gwerth uchel ac o ansawdd o fewn Gwynedd.

3.1.2 Ers y cyfarfod diwethaf, mae'r prosiect wedi bod yn canolbwyntio ar ddau faes penodol sef Ynni a Digidol er mwyn amlygu'r cyfleoedd a chreu amodau i greu swyddi gwerth uchel. Wrth weithio gyda chwmni NMi gaming a'r clwstwr o gwmnïau digidol ym Mharc Menai Bangor, mae'r prosiect wedi llwyddo i greu 10 swydd gwerth uchel ers mis Gorffennaf 2016 **(Mesur Uchel 07- Nifer o Swyddi Gwerth Uchel wedi'i creu - Atodiad 1)**. Gweler linc i fideo sy'n dangos sut mae'r gwaith yma wedi cael effaith bositif ar gadw ein pobl ifanc yn y Sir trwy gynnig cyfleoedd mewn meysydd gwerth uchel <https://www.youtube.com/watch?v=N2v2a3ZJq0E>. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar weithio gyda'r sector creadigol yn ystod y misoedd nesaf gan ymgeisio i ddenu pobl ifanc i weithio yn y maes.

3.1.3 Mae'r gwaith o ymateb a chyfrannu tuag at Dasglu Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ymateb i'r colledion swyddi yn Nhrawsfynydd yn mynd rhagddo. Mae'r pwyslais yma ar sicrhau swyddi gwerth uchel yn ardal Trawsfynydd ynghyd ag ymateb i'r colledion swyddi yn yr ardal. Yn ogystal, mae gwaith o ddatblygu cais am arian Ewrop ar gyfer isadeiledd Canolfan Awyrofod Eryri wedi cychwyn ac yn cynnal momentwm, gyda'r gobaith o gyflwyno'r cais cyn y Nadolig.

3.1.4 Bydd proses ymgynghorol i ymgysylltu ynglŷn â'r SMR yn ardal Trawsfynydd yn cychwyn yn fuan. Rwy'n credu bod hwn yn gam pwysig ymlaen gan fydd cyfle i gynghorau cymuned gael mewnbwn.

### 3.2. T2 Cadw'r Budd yn Lleol

3.2.1 Pwrpas y prosiect yma yw uchafu gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol. Mae dwy agwedd i'r prosiect sef gosod trefn gaffael gwasanaethau a nwyddau newydd yn y Cyngor a chefnogi busnesau i gystadlu ac ennill cytundebau'r Cyngor a thu hwnt.

3.2.2 **Rheolaeth Categori :** Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod o'r Tîm Arweinyddiaeth ym mis Medi yn nodi cyfeiriad y Cyngor gyda threfniadau caffael a phrynu'n Strategol. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar sefydlu prosesau yn y maes Amgylchedd a Corfforaethol yn y misoedd nesaf.

3.2.3 **Uchafu Gwariant Busnesau Lleol:** Mae rhaglen waith wedi'i gosod ar gyfer y gwaith o uchafu gwariant busnesau lleol. Un o'r prif faterion bydd y prosiect yn rhoi pwyslais arno yw'r angen i ddarparu cefnogaeth i fusnesau tu hwnt i drefniadau caffael. Penderfynwyd canolbwyntio ar ddarparu cefnogaeth i fusnesau yn y sector Adeiladwaith a Gofal yn y lle cyntaf.

3.2.4 Ar hyn o bryd rydym yn mesur y prosiect yma trwy ystyried canran o wariant caffael y Cyngor sy'n mynd i gwmnïau o fewn y Sir (os yw'r brif swyddfa gyda

chod post o fewn y Sir)(**Mesur Caff06 yn Atodiad 1**). Nid wyf yn teimlo bod y mesur yma yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa o ran gwariant caffael. Fel enghraifft, gwelwyd 'Wynne Construction' a leolir yn Ninbych yn ennill mwyafrif o'r cytundebau adeiladu ysgolion unfed ganrif ar hugain yng Ngwynedd, gydag oddeutu £8.67m yn cael ei wario gan y Cyngor yn ystod 2015-16. Serch hynny, gwelwyd dros £3.4m yn dod yn ôl i mewn i Wynedd drwy is-gontractau wrth i 'Wynnes' adeiladu Ysgol Hafod Lon yn unig. Rwyf yn awyddus i'r Adran ystyried sefydlu mesur ychwanegol sy'n cynnwys gwerth ariannol sy'n dod i'r Sir trwy is-gontractau. Byddaf yn gallu adrodd ar y mesur newydd yma pan rwy'n adrodd tro nesaf.

### 3.3. T3 Gwynedd Digidol

3.3.1 Pwrpas y prosiect yw cefnogi ymdrechion i drawsnewid defnydd busnesau, gwasanaethau a thrigolion Gwynedd o dechnoleg drwy sicrhau bod darpariaeth o fand eang cyfoes ar draws y sir.

3.3.2 Ers i mi adrodd tro diwethaf, rwyf wedi gofyn i'r prosiect ganolbwyntio ar ennyn diddordeb busnesau o'r cymorth sydd ar gael trwy raglen Cyflymu Cymru i fusnesau, gan fod tystiolaeth yn dangos bod ymwybyddiaeth o'r cymorth yn isel. Mae briff wedi'i lunio ar gyfer trefnu cyfres o weithgareddau annog trigolion a busnesau Gwynedd i fanteisio ar fand eang yn y Sir, gyda'r bwriad i drefnu digwyddiadau cyn diwedd mis Tachwedd.

3.3.3 Efallai i chi gofio i mi nodi tro diwethaf am gynllun peilot i ddarparu wi-fi cyhoeddus yn Aberdaron fel rhan o'r prosiect. Cymeradwywyd cais diweddar ar gyfer cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi cynlluniau wi-fi pellach yn y sir ac i ymestyn y ddarpariaeth o gyfrifiaduron sydd ar gael i ddefnydd y cyhoedd. Mae diffyg mynediad i offer TG/ digidol wedi ei amlygu fel problem gan unigolion/ grwpiau yn ein cymunedau gwledig, felly fydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn ymateb i'r broblem. Disgwylir gweld pwyntiau gweithredu ychwanegol mewn mannau cyhoeddus megis llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, canolfannau llety cymdeithasol a chyfleusterau cymunedol yng Ngwynedd Wledig.

3.3.4 Mae'r cynllun yma wedi bod yn gweithio gyda phrosiect Arloesi Gwynedd Wledig a Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun peilot i dreialu dull newydd o ddarparu band eang cyflym i leoliadau anghysbell gan ddefnyddio'r tonfeddi sydd yn bodoli rhwng y signalau gan fastiau teledu (dyma'r tonfeddi sydd yn teithio pellaf ac yn cario orau drwy rwystrau megis coed ac adeiladau)

3.3.5 Bu ymweliad i Ynys Arran yn yr Alban gan gynrychiolaeth o Arloesi Gwynedd Wledig a Llywodraeth Cymru i weld y dechnoleg ar waith, ac rydym yn bwriadu treialu'r dechnoleg ar safle Trawsfynydd Ardal Fenter Eryri. Dyma fydd y tro gyntaf yng Nghymru i'r dechnoleg gael ei ddefnyddio.

### 3.4. T4 Cynllun Arloesi Gwynedd Wledig

3.4.1 Pwrpas y prosiect yma yw creu'r amodau i gryfhau sail economi wledig Gwynedd gan annog mentrau lleol i sefydlu a datblygu er mwyn cynnal cyflogaeth. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy Arloesi Gwynedd Wledig - LEADER Rhaglen Datblygu Wledig.

3.4.2 Un o'r gweithgareddau sy'n cael ei beilota trwy'r prosiect yma yw Hwb Arloesi, sef gofod cydweithio newydd gyda chyfleusterau 'desg boeth' sydd bellach wedi agor yn yr Hen Lyfrgell ym Mhorthmadog. Pwrpas y peilot yma yw gweld os

yw'r gofod cydweithio yn hyfyw ac o fudd o fewn ein cymunedau gwledig. Mae'r angen am yr hwb wedi'i amlygu trwy'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau gwledig. Mae ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd ymhlith yr uchaf o ran unigolion sy'n gweithio o'u cartrefi. Mae'r cynllun hefyd yn gwneud defnydd o adeiladau gwag yn yr ardal. Os bydd yr Hwb ym Mhorthmadog yn llwyddiannus, yna byddai modd ystyried rhai pellach ar draws y Sir.

3.4.3 Yn ogystal, trwy'r prosiect yma wedi yn gweithio'n agos gyda Chyfeillion Amgueddfa Lloyd George i adnabod trefniadau rheoli amgen a sicrhau achrediad i'r Amgueddfa. Mae hwn yn enghraifft dda o sut mae'r cynllun yma yn cydblethu gyda gwaith unedau eraill yn yr Adran, gan sicrhau trosglwyddo asedau cymunedol.

3.4.4 Oherwydd natur arloesol cyllid LEADER, mae nifer o is-brosiectau wedi'i gweithredu, ond ar hyn o bryd, nid oes tystiolaeth o effaith y gweithgareddau hyn. Rwy'n awyddus i'r cynllun ganolbwyntio ar werthuso'r effaith hyd yma ac ystyried prif ffrydio rhai o'r cynlluniau sy'n dangos yr effaith mwyaf ar drigolion Gwynedd.

**3.5. T5 Safle Treftadaeth y Byd**

3.5.1 Pwrpas y prosiect hwn fydd creu budd economaidd o dreftadaeth gyfoethog Gwynedd. Byddwn yn canolbwyntio ar Safleoedd Treftadaeth Byd presennol ac yn cyflwyno achos am statws Safle Treftadaeth y Byd presennol ac yn cyflwyno achos am statws Safle Treftadaeth y Byd i rannau o'r dyffrynnoedd llechi.

3.5.2 Mae Consortiwm Govannon yn parhau i weithio ar yr enwebiad ar gyfer statws, gyda'r gwaith o fapio opsiynau ar gyfer elfennau gwarchod a chadwraeth o fewn y safle arfaethedig. Disgwylir byddem yn adnabod ffiniau ar gyfer yr enwebiad yn y misoedd nesaf. Bydd penderfyniad terfynol ar yr enwebiad yn cael ei wneud erbyn Chwefror 2018, yn unol ag amserlen UNESCO .

3.5.3 Mae'n deg dweud bod pwyslais y prosiect hyd yma wedi bod ar ddatblygu'r enwebiad ar gyfer statws, yn hytrach nag ystyried y budd economaidd sy'n deillio o'r gwaith. Mae Grŵp Busnes wedi'i sefydlu i ystyried y budd economaidd, sydd yn gam ymlaen ond rwyf hefyd wedi gofyn i'r Adran ystyried newid pwyslais y prosiect i ganolbwyntio ar y budd economaidd yn y misoedd nesaf. Yn benodol, rwy'n awyddus i ni ystyried beth yw'r cyfleoedd economaidd sy'n codi yn ein cymunedau.

3.5.4 Mae gwaith datblygu yn parhau gyda phrosiect Glannau Menai, gyda'r cais am arian Ewrop wedi'i gyflwyno mis Medi ar gyfer gwneud gwelliannau ar gyfer adfer Safle Hen Ynys, datblygiadau rheilffordd newydd, ehangu ar gyfer Galeri 2, a gwelliannau canol tref yng Nghaernarfon. Disgwylir derbyn cadarnhad o'r pecyn ariannu erbyn canol mis Tachwedd.

**3.6. T6 Gwella Mynediad pobl y sir i waith ac ymateb i rwystrau**

3.6.1 Pwrpas y prosiect hwn fydd hwyluso a gweithredu pecyn o brosiectau er mwyn cefnogi unigolion bregus i mewn i waith. Mae'n brosiect rhanbarthol trwy waith Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru gyda Gwynedd wedi bod yn cyfrannu tuag at gomisiynu'r gwaith.

3.6.2 Bellach, mae 133 o bobl ifanc wedi cael cymorth trwy gynllun TRAC sy'n targedu pobl ifanc sy'n debygol o beidio â bod mewn gwaith, hyfforddiant na

chyflogaeth. Hyd yma, mae 29 o bobl ifanc wedi symud i addysg neu hyfforddiant yn dilyn derbyn cymorth y prosiect. Mae hwn yn gam tuag at leihau'r ffigwr o bobl ifanc sy'n NEET yn 16 oed.

3.6.3 Mae cynllun OPUS sy'n targedu oedolion bregus er mwyn eu cefnogi i gyflogaeth gynaliadwy wedi'i derbyn cymeradwyaeth ar gyfer cyllid Ewrop ers i mi adrodd tro diwethaf. Bydd Adran Oedolion a Llesiant yn arwain ar weithredu'r prosiect yma.

3.6.4 Adnabuwyd dau risg/ rhwystr ar gyfer y cynllun yma, sef goblygiadau gadael Ewrop ar ffynonellau ariannu'r prosiectau wedi 2018. Mater arall sy'n gallu effeithio ar weithrediad rhai o'r prosiectau yw dyfodiad Rhaglen Gwaith ac Iechyd gan y Ganolfan Byd Gwaith. Er bod y ddau risg yma yn faterion tu allan i'n rheolaeth ni, mae'n bwysig bod y prosiect yn cynllunio ac yn ystyried y camau nesaf er mwyn sicrhau nad yw'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer ein trigolion bregus yn cael eu heffeithio.

**3.7. T7 Digwyddiadau Proffil uchel a Strategol**

3.7.1 Pwrpas y prosiect hwn yw denu digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol i Wynedd er mwyn manteisio ar y budd economaidd a chymdeithasol fydd yn deillio o hyn.

3.7.2 Mae'r prosiect wedi rhoi cymorth i 15 digwyddiad ychwanegol ers y tro diwethaf i mi adrodd. Hyd yma, gellir nodi mai'r budd economaidd o'r digwyddiadau yn £1.9m (**Mesur TMGC4 - Budd i'r economi o gefnogi digwyddiadau proffil uchel yn Atodiad 1l)** , gyda 4,287 wedi cymryd rhan yn y digwyddiadau, a 55 o gwmnïau o'r Sir wedi'u cyflogi i weithio ar y digwyddiadau.

**4. MESUR PERFFORMIAD**

4.1. Ar y cyfan rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mwyafrif o'r mesurau ar gyfer yr Adran hon – gweler ***Atodiad 1***. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at rai o'r mesurau wrth drafod y prosiectau. Er hyn, rwyf am dynnu eich sylw at y mater canlynol:.

4.1.1 **PENECON01 Nifer y swyddi wedi eu creu gyda chymorth yr Adran Economi & Chymuned -** Mae'r ffigwr yn 30 hyd yma. Mewn cymhariaeth a'r blynyddoedd cynt, mae'r tuedd yn dangos bod y ffigwr wedi bod yn gostwng yn flynyddol (234 o swyddi wedi'u creu yn 2014-15 o'i gymharu â 81 yn 2015-16)l. Mae'n bwysig i nodi yma bod hyn yn unol â'r disgwyl o ganlyniad i fod rhaglenni sylweddol megis y Gronfa Fuddsoddi Leol sydd wedi bod yn darparu grantiau ar gyfer busnesau wedi bod i ben.

4.2 Wrth drafod a herio perfformiad yr Adran mewn cyfarfod diweddar, rwy'n awyddus i adolygu'r rhai o'r mesurau rwy'n adrodd arnynt i chi i gynnwys gwaith rhai unedau megis Morwrol a Pharciau Gwledig gan i mi ystyried bod rhai o'r mesurau yma yn bwysig i bobl Gwynedd. Mae'r Adran yn gweithio ar eu cynllun busnes ar hyn o bryd, ac yn adolygu pwrpasau a'i mesurau'r gwasanaethau.

**5. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL**

5.1. Rwy'n falch o allu adrodd bod oll o gynlluniau arbedion perthnasol 2016/17 yr adran Economi a Chymuned wedi eu gwireddu, ac maent hefyd yn gwneud cynnydd derbyniol iawn tuag at wireddu cynlluniau 2017/18.

**6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

6.1. Dim i'w nodi.

**7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**7.1. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Prif Weithredwr:**

"Fel sydd yn amlwg o'r adroddiad, mae'r maes hwn yn un eang iawn gydag amryw o brosiectau amrywiol y mae'r adroddiad yn cyfeirio atynt.

Mae'n bwysig nodi bod y "dirywiad" a welir mewn rhai meysydd yn rhywbeth yr oeddem yn ei ragweld. Er enghraifft, mae'r lleihad yn y nifer o swyddi sydd wedi eu creu (PENECON01) yn ganlyniad i'r lleihad mewn cronfeydd allanol yr oedd modd manteisio arnynt. Mae'r adroddiad hefyd yn adrodd ar rai o'r resymau am y perfformiad o ran cwmnïau lleol yn ennill gwaith."

**ii. Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau o ran priodoldeb"

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**

"Yn unol ag arsylwadau blaenorol, gallaf gadarnhau y sefyllfa nodir yn rhan 5 o'r adroddiad, sef fod y cynlluniau arbedion perthnasol wedi eu gwireddu, neu ar eu ffordd i wireddu yn llawn ac amserol."

**8.2. Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

**8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** Mesurau Adran Economi & Chymuned

## MESURAU'R AELOD CABINET ECONOMI & CHYMUNED (hyd at ddiwedd Medi 2016)

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Gwybodaeth Diweddarf (Data cronnus hyd at 30/09/16) |
|---|---|---|---|---|---|
| Twristiaeth, March. a Gof. Cwsmer | **TMGC4**<br>Budd i'r economi o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol | £4,666,626 | £4,814,867 | £5,928,034 | Adrodd yn flynyddol (interim ar ddiwedd Medi 2016 £1.92M) |
| Adran Econ. a Chymuned | **Uchel 07**<br>Nifer y swyddi gwerth uchel wedi'u creu | - | 34 | 35 | 20 (cyfanswm interim) |
| Adran Econ. a Chymuned | **PENECON01**<br>Nifer y swyddi wedi eu creu gyda chymorth yr Adran Economi a Chymuned | Newydd i 2014-15 | 234.5 | 81 | 30 |
| Strategaeth a Datblygu | **GW01**<br>Buddsoddiad wedi ei sicrhau i ddatblygu mentrau gwledig arloesol Gwynedd | - | - | - | £128k |
| Strategaeth a Datblygu | **SD08**<br>Buddsoddiad i'r Sir drwy law prosiectau | £4,332,108 | £1,255,00 | £3,241,616 | £1,466,928 |

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Gwybodaeth Diweddarf (Data cronnus hyd at 30/09/16) |
|---|---|---|---|---|---|
| Adfywio Cymunedol | **Adfyw01**<br>Canran Prosiectau Adfywio a gefnogir sy'n hyfyw/gynaliadwy ymhen 3 blynedd | - | - | - | Adrodd yn flynyddol |
| Strategaeth a Datblygu | **YRE1**<br>Nifer busnesau'r Sir yn adrodd iddynt ddefnyddio technoleg (e.fusnes / e.fasnachu) o ganlyniad i ymyrraeth Gwynedd Digidol | - | - | 36 | 17 |
| Caffael Corfforaethol | **CAFFO6**<br>Canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmnïau o fewn y Sir (os yw'r prif swyddfa gyda cod post o fewn y Sir) | 41% | 40% | 38% | Adrodd yn flynyddol |

**Sylwadau/Naratif ar ffigyrau:**

| | |
|---|---|
| **TMGC4** | Mesurydd yn adrodd yn flynyddol. Ffigwr interim wedi Ch.2 £1.92M gyda chefnogaeth wedi ei ddarparu i 15 o ddigwyddiadau. |
| **Uchel 07** | 10 swydd gwerth uchel pellach wedi eu creu gan gwmni Nmi Gaming (www.nmi-gaming.com) yn ychwanegol i'r 10 wedi eu creu yn Ch.1. |
| **PENECON01** | Yn unol â'r disgwyl cyfanswm y swyddi a chrëir gyda chymorth yr Adran yn gostwng o ganlyniad i fod rhaglenni sylweddol megis y Gronfa Fuddsoddi Leol yn dod i ben. Fodd bynnag yr Adran yn parhau i |

| | |
|---|---|
| | gynnig ystod o gefnogaeth i fusnesau'r Sir. |
| **GW01** | Mesurydd yn adrodd yn chwe-misol. Ystod o weithgaredd yn y maes yn derbyn cefnogaeth gan gynnwys detholiad o gynlluniau arloesol drwy law Arloesi Gwynedd Wledig. Cais cam 1 lwyddiannus i'r gronfa RCDF am £128k wedi ei gyflwyno yn Ch.2 |
| **SD08** | £10k gan Lywodraeth Cymru tuag at Ardaloedd Gwella Busnes Bangor a Caernarfon. £155k gan Croeso Cymru i Gyngor Gwynedd ar gyfer gweithredu cynllun rhanbarthol. |
| **Adfyw01** | Mesurydd yn adrodd yn flynyddol. |
| **YRE1** | Mesurydd yn adrodd yn chwe-fisol. Rhaglen Cyflymu Cymru i Fusnesau yn weithredol yng Ngwynedd - targed i gefnogi o leiaf 94 o fusnesau lleol yn ystod 2016/17. |
| **CAFF06** | Mae gostyngiad yn y canran lleol i 38% yn bennaf gysylltiedig a'r ffaith bod darparwyr o tu allan i Wynedd wedi llwyddo i ennill canran uchel o brosiectau sylweddol yn y maes Adeiladwaith. Gwelwyd 'Wynne Construction' a leolir yn Ninbych yn ennill mwyafrif o'r cytundebau adeiladu Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain gyda gwariant o £8.67m gan y Cyngor yn 2015/16. Serch hynny gwelwyd dros £3.4m yn dod yn ôl i mewn i Wynedd drwy is-gontractau wrth i 'Wynne' adeiladu Ysgol Hafod Lon yn unig. |